*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Cynhelir cyfarfod o **AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 22 IONAWR 2024,** yn rhithiol **drwy Zoom,** gan ddechrau am **09:30**.

Cyn y cyfarfod hwn cynhelir sesiwn i'r Aelodau gan y Prif Swyddog Tân ynghylch goblygiadau'r penderfyniad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiant**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2023 ac 18 Rhagfyr 2023**

**5. Materion yn Codi**

**6. Adroddiad y Cadeirydd**

**7. Alldro Dros Dro 24/25**

**8. Pennu Cyllideb 2024/25**

**9. Adroddiad Diweddaru Rheoli Trysorlys 23/24**

**10. Polisi Rhoddion a Lletygarwch**

**11. Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 2 uchod.

## **RHAN II**

Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 12. Dim

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **Ddydd Llun 16 Hydref 2023** yn rhithiol trwy **Zoom**. Dechreuodd y cyfarfod am **09.30 o'r gloch**.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint (am 9:35) |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Alan Hughes (gadawodd am 11:29) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Ifan Jones (gadawodd am 12:05) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones (gadawodd am 11:46) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts (gadawodd am 10:50) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| David Tomalin | Archwilio Cymru |
| Mike Whiteley | Archwilio Cymru |
| Euros Lake | Archwilio Cymru |
| Carwyn Rees | Archwilio Cymru |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Cynrychioli** |
|---|---|
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Cynrychioli** |
|---|---|

Cynigiwyd yr ymddiheuriadau uchod a'u derbyn.

Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi ar Gŵynion i'r Aelodau cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

2.1 Datganodd y Cynghorydd Mark Young ddiddordeb personol yn Eitem 15 – Canolfan Hyfforddi Newydd oherwydd ei aelodaeth ar Bwyllgor Cynllunio Sir Ddinbych.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Dim.

**4 COFNODION CYFARFODYDD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB A'R CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL A GYNHALIWYD AR 17 GORFFENNAF 2023**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub (FRA) a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Llongyfarchwyd y Cynghorydd Mark Young a oedd wedi cymryd drosodd rôl Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Nigel Smith.

5.2 Nodwyd bod y Cynghorydd Gwynfor Owens wedi cymryd swydd ar y Bwrdd Pensiwn Lleol ac fel Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

## 6. DEILLIANNAU YMGYNGHORIAD YR ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS

6.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw bapur yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a oedd yn anelu at ddarparu'r Aelodau â'r wybodaeth ddiweddaraf am y themâu allweddol oedd yn codi o'r rhaglen ymgynghori oedd yn cynnwys y cyhoedd, y staff a'r sefydliadau partner oedd yn ymwneud ag Adolygiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o'r Ddarpariaeth Frys a gynhaliwyd rhwng 21 Gorffennaf 2023 a 30 Medi 2023.

6.2 Rhoddwyd cyflwyniad pellach i'r Aelodau gan y Rheolwr Ardal Anthony Jones gan roi trosolwg manylach o ymateb yr ymgynghoriad i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

6.3 Diolchwyd i'r Rheolwr Ardal Anthony Jones a'i dîm am y gwaith caled a wnaed yn yr ymgynghoriad, a oedd wedi bod yn broses gymhleth a manwl.

6.4 Gofynnodd un Aelod pa fewnbwn yr oedd Undeb y Brigadau Tân wedi ei roi yn yr opsiynau a ryddhawyd ar gyfer ymgynghori. Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw fod Undeb y Brigadau Tân wedi bod yn rhan o'r broses cyn-ymgynghori, a chyda'r brif broses drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghori a Thrafod, ac y byddai'n cyflwyno eu hopsiynau i'r Awdurdod yng nghyfarfod Gweithgor yr Adolygiad ar 7 Tachwedd 2023. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân ymhellach fod Cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân ar lefelau lleol a rhanbarthol yn rhan o'r broses.

6.5 Nodwyd bod dwy ran o dair o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) wedi cytuno ag Opsiwn 1 a bod yr ymgysylltu â'r ymgynghoriad wedi bod yn dda ar y cyfan.

6.6 Roedd un Aelod yn teimlo bod cysylltiadau rhwng yr eitem hon ac eitemau 9, Datganiad Cyfrifon Archwiliedig a 10, Asesiad Perfformiad Blynyddol ac y dylid ystyried y rhain ar y cyd â'i gilydd.

6.7 Gofynnodd y Trysorydd i'r rhai a oedd yn bresennol nodi bod Opsiwn 1 yr ymgynghoriad, yr opsiwn yr oedd y cyhoedd wedi ei gefnogi fwyaf, yn golygu y byddai angen cynnydd yn yr ardoll i'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, parhaodd y gwaith drwy Weithgor Craffu ar y Gyllideb yr Aelodau mewn ymdrech i nodi unrhyw arbedion y gellid eu gwneud.

6.8 Yn dilyn cais gan Aelod bod unrhyw gyfathrebu â’r staff a'r rhanddeiliaid yn glir yn dilyn canlyniad y cyfarfod hwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod y sianeli cyfathrebu wedi bod ar agor drwy gydol y broses gyfan, a’u bod yn parhau felly. Yn dilyn pob cyfarfod o'r Awdurdod, cyhoeddwyd penawdau'r cyfarfod ar yr un diwrnod i'r holl staff. Sicrheir bod yr Aelodau yn cael eu cynnwys ar yr ohebiaeth hon heddiw.

6.9 Mynegwyd pryder gan rai ynghylch cytuno i ofyn i Swyddogion roi'r gorau i weithio ar opsiynau 2 a 3; fodd bynnag, nodwyd hefyd y byddai angen cyfarwyddyd ar Swyddogion er mwyn parhau. Byddai'n tawelu meddyliau'r aelodau staff hynny sy'n poeni am gau gorsafoedd.

6.10 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi’r ystod gynhwysfawr o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedol a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus;**

**ii) Nodi’r dadansoddiad o'r adborth i'r ymgynghoriad yn yr adroddiad gan yr ymgynghorydd annibynnol Sarah Barnett Research (Atodiad 1);**

**iii) Nodi’r sylwadau a’r awgrymiadau ychwanegol a dderbyniwyd ar gyfer gwneud gwelliannau i ddarpariaeth frys deg ledled Gogledd Cymru.**

**iv) Nodi bod Gweithgor yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys dan arweiniad yr Aelodau yn argymell bod swyddogion yn parhau i weithio ar amrywiadau ar opsiwn 1 ynghyd â'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad; a**

**v) Cytuno gydag argymhelliad gweithgor Adolygiad yr Aelodau fod yr Awdurdod yn rhoi'r gorau i weithio ar opsiynau 2 a 3 yr Adolygiad yn seiliedig ar wrthod clir gan y cyhoedd o fewn yr adroddiad ymgynghori.**

## 7 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

7.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i gyflenwi ar gyfer y cyfarfod hwn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn eu gwaith swyddogol rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Medi 2023.

7.2 Gofynnodd y Prif Swyddog Tân i’w diolch i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gael ei nodi, gan fod y llwyth gwaith a achoswyd gan yr ymgynghoriad wedi bod yn aruthrol. Diolch hefyd i'r Aelodau eraill hynny a oedd wedi mynychu'r digwyddiadau cyhoeddus.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi’r wybodaeth a ddarparwyd.**

## 8 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2022/23

8.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw bapur y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2022/23 i'r Aelodau.

8.2 Croesawodd y Cadeirydd Mike Whiteley a David Tomalin o Archwilio Cymru i'r cyfarfod, a chafwyd cadarnhad ganddynt hwy bod y ddogfen wedi cael ei hadolygu ganddynt ac na fu unrhyw faterion arwyddocaol yn deillio o'u hadolygiad.

8.3 Diolchwyd i'r Swyddogion am gyflwyniad proffesiynol yr adroddiad.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23**
- **ii) nodi'r rhaglen waith ar gyfer 2023/24; a**
- **iii) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraeth Blynyddol 2022/23 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 31 Hydref 2023.**

## 9 DATGANIAD ARCHWILIEDIG O GYFRIFON 2022-23

9.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd, y Datganiad Archwiliedig o Gyfrifon 2022/23. Cyflwynodd yr adroddiad hefyd ganfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, oedd yn cadarnhau barn archwilio ddiamod.

9.2 Nododd cynrychiolwyr Archwilio Cymru fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud ar y set hon o gyfrifon gan y tîm cyllid o fewn y Gwasanaeth, a'i fod wedi bod yn archwiliad cadarnhaol iawn gyda llawer llai o anghysonderau nag yn y blynyddoedd blaenorol.

9.3 Crynhowyd crynodeb o'r camddatganiad heb ei gywiro y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 12 o'r adroddiad gan Archwilio Cymru ac eglurwyd bod gwerth net asedau wedi'i orbwysleisio ychydig; fodd bynnag, roedd hwn yn addasiad technegol, ac nid oedd ganddo unrhyw effaith go iawn ar y cyfrifon. Felly, roedden nhw'n hapus ei fod yn aros heb ei gywiro. Cadarnhawyd y byddai hyn yn cael ei ystyried yn y flwyddyn ariannol ganlynol wrth baratoi'r cyfrifon.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi'r sefyllfa alldro archwiliedig a'r perfformiad fel y nodir yn Natganiad o Gyfrifon 2022/23 (Atodiad 1);**
- **ii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2);**
- **iii) nodi'r llythyr cynrychiolaeth arfaethedig; a**
- **iv) cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2022/23.**

**10 ASESIAD O BERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022-23**

10.1 Cyflwyno er mwyn cael cymeradwyaeth yr Aelodau yr asesiad blynyddol o berfformiad yr Awdurdod yn ystod 2022/23 mewn perthynas â'i gynnydd tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant hirdymor, ac Amcanion Cydraddoldeb tymor canolig a chydymffurfiaeth â safonau perthnasol y Gymraeg.

10.2 Llongyfarchwyd y swyddogion am eu gwaith caled gyda'r adroddiad hwn, a nodwyd y gwaith rhagorol a wnaed gan y Gwasanaeth o fewn addysg.

10.3 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Cymeradwyo'r asesiad blynyddol o berfformiad yr Awdurdod yn 2022/23 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; a**
- **ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi fersiwn gryno syml o elfennau allweddol yr adroddiad asesu.**

**11 DIWEDDARIAD ARIANNOL 2023-24**

**11.1** Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol MacArthur ddiweddariad i'r Aelodau ar y rhagolygon gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer 2023/24, fel yr oedd ar 31 Awst 2023.

11.2 **PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, fel y manylir o fewn yr adroddiad;**
- **ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a materion yn y gadwyn gyflenwi;**
- **iii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trafodaethau cyflog parhaus; a**
- **iv) cymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol ac wedi'u clustnodi.**

**12. PENNU CYLLIDEB 2024/25**

12.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod, bapur i'r Aelodau ar y broses gyllideb, y tybiaethau cynllunio a'r amserlenni ar gyfer pennu cyllideb refeniw yr Awdurdod ar gyfer 2024/25.

12.2 Nodwyd y byddai paratoadau terfynol y gyllideb gerbron yr Aelodau ar 22 Ionawr i baratoi ar gyfer y dyddiad cau ardoll sef 15 Chwefror.

12.3 Rhoddwyd dadansoddiad o ddiffyg gwerth £6m y Gwasanaeth a nodwyd bod materion fel oedi yn y gadwyn gyflenwi bellach yn dod yn arferol. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod y ffigurau'n ddangosol a bod y rhagdybiaethau cynllunio yn cael eu hadolygu.

12.4 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Gwasanaeth wedi cyflawni ei achrediad Cyber Essentials yn ddiweddar.

12.5 Rhoddodd Cadeirydd Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yr Aelodau drosolwg o'r materion a drafodwyd yn ei gyfarfod agoriadol, a rhoddodd sicrwydd y byddai pob llinell gyllideb yn cael ei harchwilio'n briodol.

12.6 Amlygodd un Aelod fod y cynnydd a ragwelir i'r gyllideb oddeutu 13% a nodwyd y gallai hyn newid yn dibynnu ar waith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a'r opsiwn terfynol y penderfynwyd arno o ran yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

12.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25;**

**ii) nodi cylch gwaith y gweithgor craffu ar y gyllideb a sefydlwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r amserlen adrodd arfaethedig;**

**iii) nodi'r cynnig i ddarparu amcangyfrifon cyllideb cychwynnol i'r**
**Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2022; a**

**iv) nodi'r cynnig i geisio cymeradwyaeth ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25**
**gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024.**

## 13. Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ebrill - Mehefin 2023/24

13.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur yr Adroddiad Rheoli Trysorlys i'r Aelodau. Rhoddodd yr adroddiad hwn ddiweddariad i'r Aelodau ar weithgaredd rheoli'r trysorlys; a chydymffurfiad gyda'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 - 30 Mehefin 2023.

13.2 Nodwyd gwall ym mharagraff dau - y dyddiad y mabwysiadodd yr Awdurdod ddogfen Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: y Cod Ymarfer (2021) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) (Cod CIPFA) oedd Rhagfyr 2023.

13.3 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y Pwyllgor Archwilio wedi craffu ar yr adroddiad hwn o'r blaen.

13.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo gweithgaredd rheoli'r trysorlys; a**

**ii) cymeradwyo'r dangosyddion darbodus ar gyfer chwarter 1 2023/24.**

**14a Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru – gwahaniaethu ar sail oedran**

14a.1 Datganodd y Cynghorydd Rob Triggs, y Cynghorydd Paul Cunningham a'r Cynghorydd Jeff Evans ddiddordeb personol yn yr eitem hon gan eu bod yn gyn ddiffoddwyr tân ac yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Nododd y Clerc nad oedd hyn yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn unrhyw broses benderfynu.

14a.2 Cyflwynodd PSTC MacArthur adroddiad Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru - gwahaniaethu ar sail oed a oedd â’r nod o roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am y trefniadau i fynd i’r afael â’r gwahaniaethu ar sail oed yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru.

14a.3 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi mai'r Awdurdod oedd Rheolwr Cynllun y Cynlluniau Pensiwn.

6.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi'r gofynion deddfwriaethol a'r amserlenni a sefydlwyd gan y rheoliadau; a**
- **ii) nodi'r gwaith a wnaed i weithredu'r rheoliadau.**

**14b CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN YNG NGHYMRU – HAWL PENSIWN AR GYFER DIFFODDWYR TÂN RHAN AMSER**

14b.1 Darparodd PSTC MacArthur ddiweddariad i’r Aelodau ar y diwygiadau arfaethedig i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru i ehangu mynediad i ddiffoddwyr tân rhan amser (ar-alwad) sydd wedi gwasanaethu cyn 2000 ac sy’n gymwys.

14b.2 Nododd y Cadeirydd fod yr FBU wedi rhoi adborth da ar y gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth hyd yma.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi cefndir y mater cyfreithiol; a**
- **ii) nodi'r cynigion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion cyfreithiol sy'n codi.**

**15 Prynu Tir ar gyfer Canolfan Hyfforddi Newydd**

15.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw y papur Prynu Tir ar gyfer Canolfan Hyfforddi Newydd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed i asesu addasrwydd tir a nodwyd yn Llanelwy, Sir Ddinbych, ar gyfer datblygu canolfan hyfforddi a datblygu gynaliadwy yng Ngogledd Cymru.

15.2 Mynegwyd pryder am ddiffyg cyfathrebu posibl rhwng y Gwasanaeth ac Undeb y Brigadau Tân gan fod yr Undeb wedi dweud nad oeddent yn cefnogi'r cynnig ar gyfer adeiladu Canolfan Hyfforddi Newydd. Nododd DBST Forshaw fod rhai cymariaethau wedi'u gwneud i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r angen am arbedion cyllidebol; fodd bynnag, roedd y rhain yn ddau brosiect gwahanol ac mae'n rhaid eu trin felly. Bu deialog glir ynghylch y prosiect hwn gydag Undeb y Brigadau Tân a byddai hyn yn parhau i symud ymlaen.

15.3 Teimlai'r aelodau fod prynu'r tir yn gyfle buddsoddi i'r Gwasanaeth a nodwyd nad oedd bwrw ymlaen â'r pryniant yn golygu y byddai angen gwneud penderfyniad ynghylch adeiladu'r Ganolfan Hyfforddi newydd.

15.4 Holodd un Aelod a oedd trafodaethau wedi bod gyda'r gwasanaethau brys eraill o ran cydweithio a chadarnhawyd bod trafodaethau cychwynnol wedi digwydd.

15.5 Codwyd rhai ymchwiliadau cychwynnol i'r posibilrwydd o gyllid grant ac ar hyn o bryd roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oedd unrhyw gyllid cyfalaf ar gael i helpu gyda'r prosiect hwn. Fodd bynnag, roeddent yn cefnogi prynu'r tir yn y cyfamser.

15.7 Cynhaliwyd pleidlais ynglŷn â'r penderfyniadau, a nodwyd bod y penderfyniadau wedi'u gwneud gyda phleidlais fwyafrifol a dau ymataliad, y Cynghorydd Jeff Evans a'r Cynghorydd Bryan Apsley.

15.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r cefndir ar gyfer adolygu'r cyfleusterau hyfforddiant tân ac achub yng Ngogledd Cymru;**

**ii) nodi bod y ddarpariaeth cyfleuster hyfforddiant bresennol yn cyrraedd diwedd ei hoes;**

**iii) cymeradwyo prynu tir yn Llanelwy, Sir Ddinbych, yr aseswyd ei fod yn addas ar gyfer adeiladu canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngogledd Cymru; a**

**iv) cymeradwyo dechrau gwaith lliniaru rhag madfallod i sicrhau bod y safle'n barod ar gyfer gwaith adeiladu o fis Rhagfyr 2024. Byddai hyn yn amodol ar graffu a chymeradwyo'r Aelodau;**

## 16 YMCHWILIAD I LARYMAU TÂN AWTOMATIG

16.1 Cyflwynodd y PSTC Millington y papur ar yr ymchwiliad i larymau tân awtomatig, a oedd yn anelu at roi trosolwg i'r Aelodau o'r canfyddiadau yn dilyn archwiliad diweddar o alwadau tân diangen a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

16.2 Cafodd Euros Lake a Carwyn Rees o Archwilio Cymru eu gwahodd i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad.

16.3 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr adolygiad wedi canolbwyntio'n bennaf ar larymau tân awtomatig annomestig a rhoddwyd trosolwg o'r adroddiad.

16.4 Amlygwyd bod y tri argymhelliad a wnaed gan Archwilio Cymru wedi cael eu derbyn gan Swyddogion a'u bod wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

16.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys adroddiad lleihau Galwadau Tân Diangen Archwilio Cymru.**

## 17 MATERION BRYS

12.1 Nid oedd materion brys i’w hystyried.

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 22 Ionawr 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben: 12:07**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **ddydd Llun 18 Rhagfyr 2023** yn rhithwir trwy **Zoom**. Dechreuodd y cyfarfod am **13.00 o'r gloch**.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Stewart Forshaw | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dan Stephens | Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru |
| Anthony Jones | Rheolwr Ardal |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau i'w cofnodi.

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw rybudd o faterion brys.

**4 PENDERFYNU AR BA OPSIWN I'W WEITHREDU O'R ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS**

4.1 Cyflwynodd DBST Forshaw y papur ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) a oedd yn anelu at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn dilyn nawfed Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (y Gweithgor) sy'n cael ei arwain gan Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

4.2 Croesawyd Matt Ryan, Undeb y Brigadau Tân, i'r cyfarfod a chyflwynodd i'r Aelodau y rhesymau pam mae Undeb y Brigadau Tân yn credu y dylid gwneud y penderfyniad i beidio â gweithredu Opsiwn 1 nac Opsiwn 1a.

4.3 Ar y pwynt hwn, atgoffodd y Clerc yr Aelodau fod yn rhaid iddynt weithredu'n rhesymol a gwneud eu penderfyniad fel Aelodau o'r Awdurdod yn hytrach na Chynghorwyr sy'n cynrychioli eu hetholaeth leol. Dywedodd fod cyngor cyfreithiol helaeth wedi'i gael gan ffynhonnell annibynnol a bod hyn wedi ei gwneud yn glir bod Opsiwn 4 Undeb y Brigadau Tân yn mynd i adael y Gwasanaeth mewn sefyllfa waeth na'r un yr oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ynddi heddiw ac felly na fyddai'n amddiffynadwy yn achos adolygiad barnwrol gan y byddai ei weithredu yn weithred afresymol.

4.4 Cynigiwyd yr argymhellion fel y'u nodir yn y papur gan Aelod a rhoddwyd y rhesymeg dros hyn. Nododd yr Aelod ymhellach fod y gorsafoedd presennol wedi'u hadeiladu yn y lleoliadau hynny oedd fwyaf effeithiol ar y pryd. Nid y lleoliadau hyn oedd y rhai mwyaf effeithiol bellach ar gyfer y Gwasanaeth fel y mae wedi esblygu ac roeddent yn teimlo bod yn rhaid mynd i'r afael â hyn.

4.5 Cynigiodd Aelod y dylid penderfynu na wneir penderfyniad heddiw. Rhoddasant wybod eu bod wedi derbyn llu o ohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd yn gofyn inni beidio â gweithredu Opsiwn 1 nac Opsiwn 1a ac y dylid archwilio llwybrau amgen i ganfod opsiwn nad oedd yn golygu israddio gorsafoedd amser cyflawn.

4.6 Cafodd y cynnig hwn ei eilio gan Aelod arall, a ofynnodd ymhellach i bleidlais wedi'i chofnodi gael ei chynnal ar yr argymhellion a nodir yn y papur.

4.7 Dywedodd y Clerc bod yn rhaid i draean o'r aelodaeth gytuno i bleidlais wedi'i chofnodi gael ei chynnal, a chynhaliwyd pleidlais ar hyn wedyn. Gan fod 13 Aelod wedi pleidleisio i gynnal pleidlais wedi'i chofnodi, pasiwyd y cynnig hwn.

4.8 Cynigiodd Aelod y dylid gwneud gwelliant i argymhelliad un, sef y dylid ymgynghori ymhellach ar Opsiwn 4 Undeb y Brigadau Tân a phe bai hyn yn ffafriol, y dylid gweithredu Opsiwn 4 Undeb y Brigadau Tân.

4.9 Eglurodd y Clerc fod y gymhariaeth rhwng Opsiwn 4 Undeb y Brigadau Tân a'r lefel bresennol o ddarpariaeth, ac y byddai Opsiwn 4 Undeb y Brigadau Tân yn golygu darparu gwasanaeth sy'n waeth na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Dywedodd ymhellach y byddai'r bygythiad o adolygiad barnwrol yn parhau, hyd yn oed ar ôl unrhyw ymgynghori y gellid ei gynnal ynghylch Opsiwn 4 Undeb y Brigadau Tân gan y byddai'n cael ei ystyried yn benderfyniad afresymol gan yr Awdurdod.

4.10 Eiliwyd y cynnig i gymeradwyo'r argymhellion fel y'u nodir yn y papur.

4.11 Dywedodd Aelod eu bod yn teimlo y dylai'r Gweithgor fod wedi gofyn am fewnbwn gan Undeb y Brigadau Tân yn gynharach fel y gellid bod wedi ystyried a chraffu ar unrhyw opsiwn a gyflwynwyd ganddynt yn drylwyr cyn gwneud penderfyniad. Nodasant hefyd na ddylai Aelodau fod yn barod i fynd yn groes i'r cyngor cyfreithiol cryf a dderbyniwyd o ran gweithredu Opsiwn 4 Undeb y Brigadau Tân. Bu iddynt hefyd eilio'r cynnig y dylid cymeradwyo'r argymhellion fel y'u nodir yn y papur.

4.12 Dywedwyd bod rhai Aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu brysio i wneud penderfyniad ynglŷn â'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'u bod yn teimlo bod risgiau y byddai diffoddwyr tân presennol yn gadael y Gwasanaeth pe bai Opsiwn 1 neu Opsiwn 1a yn cael ei weithredu ac y byddai hynny'n gwneud y sefyllfa yn waeth.

4.13 Siaradodd Aelodau eraill, rhai i gefnogi'r cynnig bod yr argymhellion fel y'u nodir yn y papur yn cael eu cymeradwyo a rhai i gefnogi gohirio'r penderfyniad.

4.14 Dywedodd PST Docx mai'r bwriad erioed, ers iddi ddod yn PST yn 2021, oedd cael perthynas waith aeddfed, agored, onest a chywir ag Aelodau'r Awdurdod ac felly, ni fyddai wedi bod yn iawn cuddio'r sefyllfa bresennol yn yr ardaloedd mwy gwledig, nid yn unig oherwydd dyletswydd statudol ond oherwydd mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud ar gyfer cymunedau Gogledd Cymru. Byddai opsiwn cydweithredol gydag Undeb y Brigadau Tân wedi cael ei ffafrio, ond yn anffodus nid oedd hyn wedi bod yn bosibl. Gofynnodd y PST i'r Aelodau nodi bod Opsiwn 4 Undeb y Brigadau Tân wedi'i gyflwyno'n hwyr iawn yn y broses ac nad oedd yn hyfyw. Gofynnodd ymhellach i Aelodau wneud penderfyniad ar y cyd a oedd o fudd i holl drigolion Gogledd Cymru.

4.15 Ar y pwynt hwn, gwahoddwyd Prif Gynghorydd Tân ac Achub Cymru, Dan Stephens i'r cyfarfod a dechreuodd drwy ddiolch i Swyddogion am y gwaith caled a wnaed yn yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys hyd yma. Nododd fod y cyngor proffesiynol a ddarparwyd yn amlwg yn gadarn a'i argymhelliad oedd y dylid dilyn hyn. Rhaid gweithredu'r model ymateb mwyaf effeithiol, tra'n cydnabod yr adnoddau y mae pen draw iddynt a chyfyngedig sydd ar gael.

4.16 Cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar yr argymhellion canlynol:

**i) Nodi'r cyngor cyfreithiol na ellir argymell Opsiwn 4 Undeb y Brigadau Tân oherwydd byddai ei fabwysiadu yn arwain at fodel gweithredu sy'n waeth na'r un presennol ac yn waeth nag Opsiwn 1 ac 1a. Gall gwneud hynny amlygu'r Awdurdod i her gyfreithiol;**
**ii) Gwrthod Opsiwn 2 yn swyddogol;**
**iii) Gwrthod Opsiwn 3 yn swyddogol; a**
**iv) Cytuno i weithredu amrywiad gwell o Opsiwn 1, sef Opsiwn 1a.**

4.17 Cyhoeddwyd canlyniadau'r bleidlais a gofnodwyd fel 12 Aelod yn erbyn yr argymhellion uchod, 11 Aelod o blaid, a thri yn ymatal. O'r herwydd, ni chafodd yr argymhellion a nodwyd yn y papur eu pasio. Doedd un Aelod ddim yn gallu pleidleisio oherwydd problemau sain.

4.18 Diolchodd y PST i'r Aelodau am eu penderfyniad a oedd, yn ei barn hi, yn bwysig i'r cymunedau y mae'r Gwasanaeth yn eu gwasanaethu. Ar ôl clywed eu barn, cynigiodd fod gwaith gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn parhau, gan gynnwys Undeb y Brigadau Tân, i ddyfeisio datrysiad parhaol amgen a fyddai'n cyflawni nodau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

4.19 **Penderfynwyd bod:**

**i) yr Aelodau'n gofyn i Swyddogion barhau i weithio gyda'r holl fudd-ddeiliaid i ddatblygu opsiwn parhaol newydd gan ystyried penderfyniad heddiw a chyfyngiadau'r gyllideb arfaethedig.**

Daeth y cyfarfod i ben: 14:20

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **30 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.llyw.cymru) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Hydref 2023 a mis Rhagfyr 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod yr Aelodau:

i) yn nodi'r wybodaeth a ddarperir.

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Ar 11 Hydref ymwelodd y Cadeirydd â Gorsaf Dân Llangefni a chwrdd â Gwylfa'r Orsaf.

7 Ar 17 Tachwedd, aeth y Cadeirydd a'r PST i gyfarfod rhithiol o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Yn syth ar ôl diwedd y cyfarfod hwnnw fe wnaethant gwrdd ag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i drafod yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a'r gyllideb ar gyfer 2024-25.

8 Ar 23 Tachwedd aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i gyfarfod rhithwir gydag aelodau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

9 Ar 4 Rhagfyr mynychodd y Cadeirydd gyfweliad rhithwir ag Archwilio Cymru fel rhan o'u hadolygiad o “Lywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru”. Cafodd y Dirprwy Gadeirydd ei gyfweld y diwrnod canlynol hefyd.

10 Ar 11 Rhagfyr mynychodd y Cadeirydd Wasanaeth Carolau Nadolig y Gwasanaethau Brys yn Eglwys Gadeiriol Bangor.

11 Ar 14 Rhagfyr fe wnaeth y Cadeirydd a'r PST gwrdd â chynrychiolwyr Undeb i drafod agenda'r Panel Gweithredol sydd ar ddod.

12 Ar fore 18 Rhagfyr ymwelodd y Cadeirydd â lleoliad y tân mawr yn Hen Neuadd y Sir, Llangefni a diolchodd i'r criwiau a oedd yn dal yno.

13 Yn ystod y chwarter hwn mae’r Dirprwy Gadeirydd wedi mynychu’r ‘Seremoni Cyflawniad’ yng Ngorsaf Dân y Waun, Gorsaf Dân Llanfairfechan, Gorsaf Dân Dinbych a Gorsaf Dân yr Wyddgrug ac wedi cyflwyno tystysgrifau i’r bobl ifanc a oedd wedi cwblhau’r cwrs Ffenics.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae’r aelodau yn eu mynychu yn cael eu had-dalu o'r gyllideb ar gyfer teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi o gymeradwyo'r argymhelliad. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **16 Hydref 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Alldro Dros Dro 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ragolygon gwariant cyfalaf a refeniw 2023/24, fel yr oeddent ar 30 Tachwedd 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y gofyniad cyllideb net ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Cadarnhaodd hyn ofyniad net o £44.394 miliwn i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Yn ogystal, cymeradwyodd yr Awdurdod fesurau anghylchol er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol, gan gynnwys gohirio gwariant a defnyddio cronfeydd wrth gefn.

3 Rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol yn £45.331m, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â phrosiectau amrywiol, setliadau cyflog cenedlaethol sydd uwchlaw'r ddarpariaeth gyllidebol, a phwysau cyffredinol oherwydd chwyddiant. Bydd defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, y gronfa gyffredinol, a'r darpariaethau yn lliniaru'r costau ychwanegol ac nid ydym yn rhagweld y bydd angen ardoll atodol.

4 Cymeradwyodd yr Awdurdod gyllideb gyfalaf 2023/24 o £6.532m ar 16 Ionawr 2023. Roedd hyn yn cynnwys £3.00m i brynu tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, a disgwylir i hyn gael ei gwblhau yn ystod chwarter olaf 2023/24. Hefyd, mae cyllid o £0.625m wedi'i drosglwyddo ymlaen o 2022/23. Mae'r rhaglen gyfalaf dan bwysau cost ac felly mae rhai cynlluniau yn cael eu blaenoriaethu er mwyn aros o fewn y cyllid sydd ar gael. Rhagwelir y bydd y gwariant yn £5.29m a gofyniad i drosglwyddo £1.42m o gyllid ymlaen.

## ARGYMHELLION

5 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r blaenamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, fel y manylir yn eu cylch o fewn yr adroddiad;
(ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant ac â materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi; a
(iii) chymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai wedi'u clustnodi.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

## CEFNDIR

7 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Cafodd y gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb refeniw net o £44.394 miliwn i'w ariannu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i lif yr £1.08m o gyllid cymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pensiynau diffoddwyr tân. Yn flaenorol, roedd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Awdurdod ond ers 1 Ebrill 2023 mae'n cael ei ariannu drwy'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

8 Wrth bennu'r gyllideb, er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol o fewn 2023/24 fe wnaeth yr Aelodau hefyd gymeradwyo ystod o fesurau anghylchol sydd wedi cael effaith ar gyflwyno'r gwasanaethau ac ar gapasiti corfforaethol. Roedd y rhain yn cynnwys gohirio gwariant a defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol a rhai a glustnodwyd; camau a oedd yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â cholli £0.4m o incwm grant gan Lywodraeth Cymru oherwydd contract Airwave, pwysau hysbys eraill, yn ogystal ag ansicrwydd yn ymwneud â thrafodaethau cyflog cenedlaethol.

9 Aseswyd bod y gofyniad cyllideb gyfalaf yn £6.532m ac fe'i cymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Ers hynny, mae rhaglen 2022/23 wedi llithro gan arwain at gynlluniau sydd werth £0.625m yn parhau i 2023/24.

10 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa alldro ddrafft o ran gwariant cyfalaf a refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

**GWYBODAETH**

**Y GYLLIDEB REFENIW**

11 Mae costau staff yn cynrychioli 72% o'r gwariant gros. Y gyllideb staffio ar gyfer 2023/24 yw £31.872m ac mae'n cynnwys mesurau a gyflwynwyd bryd hynny er mwyn cadw gwariant o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. Fodd bynnag, wrth bennu'r gyllideb, nodwyd hefyd bod y trafodaethau cyflog cenedlaethol ar gyfer yr holl staff yn dal i gael eu cynnal; a nodwyd bod hyn yn berthnasol i 2022/23 yn ogystal â 2023/24 ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi ar delerau ac amodau'r llyfr llwyd (staff gweithredol).

12 Roedd y broses o bennu'r gyllideb yn cynnwys rhagdybiaeth y byddai dyfarniadau cyflog ar gyfer 2023/24 i'r holl staff yn 4%. Y cynnig cyflog terfynol a gytunwyd ym mis Tachwedd 2023 ar gyfer staff llywodraeth leol oedd codiad o £1,925 ar draws pob gradd, sy'n cyfateb i oddeutu 6.6%.

13 Cafodd dyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ei setlo ym mis Chwefror 2023. Cadarnhaodd hyn fod ffigwr o 7% wedi'i dderbyn ar gyfer swyddi diffodd tanau a rheoli diffoddwyr tân o fis Gorffennaf 2022, gyda 5% arall o 1 Gorffennaf 2023 ymlaen. Roedd y setliadau hyn yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio o 5% a 4% a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb.

14 Mae'r rhagolygon sydd ddim yn ymwneud â chyflogau yn adlewyrchu'r pwysau anochel a hysbys a wynebir o ran costau TGCh, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau a chostau tanwydd. Fodd bynnag, mae ansicrwydd pellach yn parhau oherwydd pwysau chwyddiant cyffredinol a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi sy'n arwain at wariant uwchlaw'r gyllideb a ragwelwyd.

15 Er bod y rhan fwyaf o'r gwariant yn cael ei ariannu o ardoll yr awdurdodau cyfansoddol, mae incwm gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan grantiau, yn ogystal ag ailgodi tâl gan gyrff eraill mewn perthynas â'r defnydd o'n hadeiladau.

16 Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyca a thaliadau refeniw ar gyfer defnyddio asedau cyfalaf. Rhagwelir y bydd tanwariant yn y gyllideb hon oherwydd yr oedi wrth gwblhau prosiectau cyfalaf.

**ALLDRO REFENIW**

17 Mae'r adroddiad yn rhagweld gorwariant o £0.937m. Mae'r dadansoddiad i'w weld isod.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiant (£m) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 31.872 | 31.578 | (0.294) | -0.92% |
| Eiddo | 3.516 | 4.092 | 0.576 | 16.38% |
| Cludiant | 1.271 | 1.416 | 0.145 | 11.46% |
| Cyflenwadau | 5.419 | 6.806 | 1.387 | 25.59% |
| Taliadau Trydydd Parti | 0.305 | 0.323 | 0.018 | 5.69% |
| Ariannu Cyfalaf a Thaliadau | 3.129 | 2.304 | (0.825) | -26.36% |
| Incwm | (1.118) | (1.188) | (0.070) | 6.32% |
| **Alldro a Ragwelir** | **44.394** | **45.331** | **0.937** | **2.11%** |

**COSTAU GWEITHWYR**

18 Mae costau gweithwyr yn rhan sylweddol o’r gyllideb (72%) ac yn cynnwys cyflogau, costau pensiwn, cost recriwtio a hyfforddi, a gwasanaethau gweithwyr, megis gwasanaethau iechyd galwedigaethol. Wrth gymeradwyo’r gyllideb yn derfynol ym mis Ionawr 2023, cymeradwywyd ystod o fesurau gan yr Aelodau i gyfyngu ar y gwariant ar staff. Nid yw'r rhain yn gylchol eu natur, ac maent yn cynnwys mesurau fel peidio â llenwi swyddi gwag o fewn y strwythur a gymeradwywyd, a chyfyngu ar y cynnydd a ragwelwyd o ran recriwtio i orsafoedd dyletswydd rhan amser.

19 Rhoddwyd strwythur staffio newydd ar waith ym mis Mehefin 2023 ac mae'r swyddi hyn yn parhau i fod yn hanfodol i gyflawni'r amcanion corfforaethol. Mae arbedion cost y swyddi gwag wedi lliniaru ychydig ar y costau uwch sy’n gysylltiedig â’r dyfarniadau cyflog a goramser.

20 Mae camau yn parhau i gael eu cymryd er mwyn cynyddu nifer y diffoddwyr tân dyletswydd rhan amser, a hynny er mwyn mynd i'r afael â materion argaeledd, ond gan gofio cyfyngiadau'r gyllideb.

21 Yn ogystal, parhaodd y gwaith o benodi i swyddi gwag arbenigol a chynnal capasiti yr ochr weithredol. Er y gwnaethpwyd arbedion yn 2023/24 trwy gadw swyddi’n gwag a phenodi i swyddi yn hwyrach yn y flwyddyn, defnyddiwyd yr arian i gynnal argaeledd ac i fynd i’r afael â salwch mewn meysydd gweithredol.

22 Fel sy'n wir gyda chyrff llywodraeth leol eraill, derbyniwyd ad-daliad untro gan Gronfa Bensiwn Clwyd mewn perthynas â chyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr, a hynny yn dilyn y prisiad actiwaraidd. Roedd hyn yn £0.503m.

23 Cyfanswm y tanwariant net o ran costau gweithwyr yw £0.294m, ac mae dadansoddiad pellach isod:

| Costau Gweithwyr | £m |
|---|---|
| Dyfarniadau cyflog uwchben y gyllideb | 0.730 |
| Arbedion oherwydd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn | (1.034) |
| Oriau ychwanegol i dalu am ddyletswyddau gweithredol - gan gynnwys salwch | 0.620 |
| Costau eraill yn ymwneud â gweithwyr | (0.089) |
| Rhagamcan costau pensiwn | (0.521) |
| **Tanwariant a ragwelir** | **(0.294)** |

## COSTAU NAD YDYNT YN GYFLOGAU

24 Mae'r gyllideb ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau yn wynebu pwysau sylweddol. Mae’r rhain yn cynnwys ansefydlogrwydd parhaus costau tanwydd oherwydd materion pris a chyflenwad. Mae argaeledd a chostau nwyddau eraill yn peri pryder hefyd, fel cyflenwadau adeiladu, offer TGCh a darnau ar gyfer y fflyd, yn enwedig o ystyried cymhlethdod y cadwyni cyflenwi ac ansicrwydd byd-eang.

25 Mae gwariant nad yw ar gyflog cael ei adolygu’n barhaus gan ddeiliaid y gyllideb, a hynny er mwyn sicrhau bod y blaenamcanion yn parhau i fod yn rhesymol ac er mwyn rheoli costau na ellir eu hosgoi.

### Eiddo

26 Rhagwelir gorwariant o £0.576m o ran costau eiddo. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn costau gwasanaethu a chynnal a chadw, yn ogystal â chwblhau gwaith a oedd fod i gael ei wneud yn 2022/23. Defnyddir cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i wrthbwyso costau gwaith 2022/23.

27 Mae ffigurau’r gyllideb yn cynnwys y costau rhagarweiniol y cytunwyd arnynt mewn cyfarfod blaenorol sy’n gysylltiedig ag arolygon safle ar gyfer y pryniant tir arfaethedig a datblygu’r achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi newydd (£0.25m).

28 Mae ansefydlogrwydd y farchnad a’r cynnydd yng nghostau nwy a thrydan yn her ariannol fawr i'r Awdurdod. Ar hyn o bryd, mae’r costau a ragwelir wedi’u cadw o fewn y gyllideb ac maen nhw’n cael eu monitro fel rhan o’r cytundeb lefel gwasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru.

29 Mae'r Awdurdod wedi elwa o ostyngiad i ardrethi annomestig cenedlaethol yn dilyn llwyddiant apeliadau ardrethu. Y tanwariant yn y maes hwn yw £0.18m.

## Cludiant

30 Mae'r gyllideb cludiant yn rhagweld amrywiant o £0.146m. Mae'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig â thanwydd (olew, diesel a phetrol) ac argaeledd a chostau darnau ac atgyweiriadau cerbydau yn rhoi pwysau ar y gyllideb hon.

## Cyflenwadau

31 Y gyllideb cyflenwadau net yw £5.349m a'r gorwariant a ragwelir ar hyn o bryd yw £1.387m, sy'n cynnwys mentrau yn ystod y flwyddyn a fydd yn cael eu hariannu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Mae'r maes gwariant hwn yn cynnwys meysydd sy'n hanfodol i'r busnes, fel prynu offer a chyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer yr ochr weithredol, trwyddedau TGCh hanfodol, y contract Firelink ac yswiriant.

32 Mae pwysau chwyddiant sylweddol ar nifer o feysydd sy'n hanfodol i'r busnes, ac mae camau yn cael eu cymryd i liniaru ac i gyfyngu ar y rhain, lle bo hynny'n bosibl.

33 Mae'r elfen gwariant fwyaf yn ymwneud â'r contract Firelink cenedlaethol sydd â chost flynyddol o £0.84m. Dyma'r contract gwasanaethau brys sy'n galluogi i bartneriaid yn y gwasanaethau brys gyfathrebu, rhyngweithio, ac ymateb i ddigwyddiadau. Bydd hwn yn cael ei ddisodli gan Raglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP) a fydd yn gwella llais a data ar draws y gwasanaethau brys. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r dyddiad gweithredu ar gyfer ESMCP yn hysbys, a'r contract Firelink yw'r unig ddewis fel arall. Cyn hyn, derbyniwyd cefnogaeth o £0.42m gan Lywodraeth Cymru, ond daeth y gefnogaeth yma i ben ar 1 Ebrill 2023 ac mae'n parhau i fod yn bwysau cost parhaus.

34 Mae'r costau TGCh wedi cynnwys pwysau fel cynnydd yn y costau sy'n gysylltiedig â rhentu llinellau ffôn. Mewn ymateb i'r her ariannol hon, mae TGCh wedi gwneud penderfyniad strategol i liniaru costau trwy gael gwared ar y systemau hen ffasiwn hyn yn raddol a chroesawu datrysiadau amgen modern a chost-effeithiol sy'n cyd-fynd â datblygiadau technolegol cyfredol. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn sicrhau effeithlonrwydd ariannol ac y mae hefyd yn rhoi'r Gwasanaeth mewn sefyllfa dda i elwa ar yr arbedion a'r swyddogaethau gwell y mae datrysiadau arloesol yn eu cynnig. Mae costau TGCh hefyd wedi cynyddu oherwydd y gofyniad i brynu caledwedd ychwanegol, gan gynnwys teclynnau galw a gliniaduron newydd yn lle'r rhai sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes.

35 Bu gwariant sylweddol hefyd wrth brynu cit tân ychwanegol, oherwydd yr adolygiad halogyddion sy'n parhau, ac mae wedi arwain at orwariant a ragwelir o £0.474m.

36 Mae’r sefyllfa alldro a ragwelir yn cynnwys costau ar gyfer amnewid offer gweithredol hanfodol a chit tân, meddalwedd AD wedi’i ddiweddaru a gwaith prosiect mewn perthynas â’r adolygiadau amrywiol sy’n cael eu cynnal ar hyn o bryd ledled y Gwasanaeth, gan gynnwys yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys.

**Taliadau Trydydd Parti**

37 Mae taliadau trydydd parti yn ymwneud â chytundebau lefel gwasanaeth gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Gâr a Heddlu Gogledd Cymru.  Mae'r cytundebau yn cynnwys darparu gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau swyddogion monitro, gweinyddu pensiynau a chyfleusterau.

38 Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd gorwariant o £0.017m yn y gwariant hwn. Mae hyn oherwydd y gwaith ychwanegol sy’n angenrheidiol o ganlyniad i’r newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â phensiynau diffoddwyr tân.

**Ariannu Cyfalaf**

39 Mae'r gyllideb ariannu cyfalaf yn neilltuo cyllid refeniw er mwyn ariannu gwariant cyfalaf ac mae'n cynnwys y ddarpariaeth isafswm refeniw a chostau llog ar fenthyca.

40 Mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) yn cynrychioli'r isafswm y mae'n rhaid ei godi ar gyfrif refeniw awdurdod bob blwyddyn ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf, a fydd wedi'i ariannu yn gyntaf gan fenthyciadau. Mae’n rhan o arferion cyfrifyddu pob Awdurdod, a’i nod yw sicrhau y gall yr Awdurdod dalu’r dyledion sydd ganddo yn sgil prynu asedau cyfalaf, megis adeiladau a cherbydau.

41 Mae’r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod benderfynu ar swm MRP ym mhob blwyddyn ariannol, un a ystyrir yn ddarbodus gan ei fod yn cyfeirio at ofyniad cyllido cyfalaf sydd wedi'i gyfrifo (CFR). Yn dilyn trafodaethau gyda Chynghorwyr y Trysorlys, sef Arlingclose, gwnaed gwaith i adolygu’r polisi MRP a’r cyfrifiad MRP. Mae hyn wedi arwain at ostwng yr MRP i £1.902m ar gyfer 2023/24, o'i gymharu â chyllideb o £1.999m.

42 Mae’r gyllideb hefyd yn cynnwys y costau llog sy’n gysylltiedig â benthyciadau’r Awdurdod.  Oherwydd anwadalrwydd y sefyllfa economaidd, mae cost benthyca wedi parhau i gynyddu. Fodd bynnag, ni fu angen benthyca pellach gan y fod gwariant cyfalaf hyd yma wedi digwydd yn arafach o lawer na'r disgwyl, gan olygu y rhagwelir arbediad cyllideb o £0.428m.

43 Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi arian dros ben, ar sail tymor byr. Mae'r cyfraddau wedi parhau i godi yn ystod y flwyddyn, a buddsoddwyd adneuon er mwyn cael yr enillion mwyaf, yn unol â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Mae'r sefyllfa arian parod yn cael ei hadolygu bob dydd ac mae unrhyw arian nad yw wedi'i ddefnyddio yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon cadw amrywiol, er mwyn ennill llog. Hyd yn hyn derbyniwyd £0.296m mewn llog.

44 Oherwydd y gwaith parhaus o reoli'r gyllideb hon yn ofalus, gwnaed £0.825m o arbedion i gyd.

**INCWM**

45 Yn ogystal â'r ardoll awdurdodau cyfansoddol, mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys incwm disgwyliedig ar gyfer ffioedd a thaliadau a grantiau.

46 Mae ffioedd a thaliadau yn ymwneud yn bennaf ag ailgodi tâl ar gyfer adeiladau a rennir â chyrff eraill.

47 Mae incwm arall wedi cynyddu oherwydd cynnydd yn y ffioedd a godir ar gyrff eraill ac elw o waredu cerbydau ac offer.

| | Cyllideb (£m) | Blaenamcan (£m) | Amrywiant (£m) |
|---|---|---|---|
| Grantiau | 0.854 | 0.854 | 0.000 |
| Ffioedd a thaliadau | 0.264 | 0.334 | 0.070 |
| **Cyfanswm** | **1.118** | **1.188** | **0.070** |

**Cyllid Grant**

48 Mae cyfanswm dyraniadau cyllid grant Llywodraeth Cymru 2023/24 yn £0.854m. Mae dadansoddiad manwl o'r cyllid grant ar gyfer 2023/24 i'w gael isod. Caiff pob grant ei fonitro'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol er mwyn nodi unrhyw amrywiannau ac i'n galluogi i gymryd camau adferol.

| | Dyraniad (£m) |
|---|---|
| Lleihau Tanau Bwriadol | 0.169 |
| Offer Diogelwch yn y Cartref | 0.240 |
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Ieuenctid | 0.137 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol | 0.308 |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **0.854** |

**RHAGLEN GYFALAF**

49 Cymeradwyodd yr Awdurdod raglen gyfalaf o £3.532m, ym mis Ionawr 2023. Yn ogystal, roedd dyraniad o £3.00m ar gyfer prynu tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig.

50 Yn unol â'r adroddiad alldro terfynol a gyflwynwyd yng nghyfarfod Gorffennaf 2023, cytunwyd ar y gofyniad am gyllid i'w drosglwyddo ymlaen o £0.625m ar gyfer cynlluniau na chwblhawyd yn 2022/23.

51 Oherwydd oedi parhaus, mae'r gwariant cyfalaf hyd yma yn £1.115m a rhagwelir mai'r blaenamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn fydd £5.290m.

52 Fel sy'n wir gyda'r gyllideb refeniw, mae'r rhaglen gyfalaf yn wynebu pwysau o ran costau, gyda chostau cynyddol mewn perthynas â phrynu cerbydau a gwaith adeiladu. Mae hyn yn cael ei reoli drwy flaenoriaethu cyflawni prosiectau hanfodol.

53 Mae trosglwyddo cyllid ymlaen eisoes wedi'i amlygu, fel y gwelir isod. Mae cyfanswm o bum peiriant tân wedi'u harchebu; fodd bynnag, disgwylir i'r taliadau fesul cam ymestyn i 2024/25 oherwydd oedi o ran argaeledd slotiau adeiladu gyda'r cyflenwr.

54 Mae'r holl gynlluniau eraill sydd heb eu dechrau eleni wedi cael eu hadolygu, ac mae'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y tabl yn rhan o'r cynllun cyfalaf ar gyfer 2024/25.

55 Mae manylion y cynlluniau i'w gweld isod:

| Cynllun | Dyraniad Gwreiddiol £m | Dyraniad Diwygiedig £m | Rhagolwg £m | Arian Treigl £m |
|---|---|---|---|---|
| **2023/2024** | | | | |
| Adnewyddu Peiriannau Tân | 1.430 | 0.475 | 0.475 | 0.960 |
| Faniau amlbwrpas | 0.189 | 0.189 | 0.269 | |
| Peilot Fan Trydan | - | - | 0.107 | |
| Unedau Lles | 0.150 | 0.150 | 0.150 | |
| Adfywio Gorchymyn a Rheoli | 0.600 | 0.600 | - | - |
| Man Waith Adeiladu | 0.483 | 0.100 | 0.100 | |
| Tyrau Hyfforddi | 0.250 | 0.250 | - | 0.250 |
| Fflyd - system rhwystro cwympiadau a gwaith to | 0.100 | 0.126 | 0.126 | |
| Drysau bae peiriannau | 0.180 | 0.180 | 0.180 | 0.057 |
| Uwchraddio Gwresogi Llandudno | 0.150 | 0.150 | - | 0.150 |
| Gwaith yn Nhŷ Mwg Dolgellau | - | 0.365 | 0.256 | |
| Tir canolfan hyfforddi arfaethedig | 3.000 | 3.000 | 3.000 | |
| Heb ei ddyrannu | - | 0.947 | - | |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | **6.532** | **6.532** | **4.663** | **1.417** |
| **Arian Treigl 2022/23** | | | | |
| Tyrau Hyfforddi | 0.307 | 0.307 | 0.307 | |
| Faniau gorsaf amlbwrpas | 0.160 | 0.160 | 0.162 | |
| Adeiladau - Man Waith | 0.158 | 0.158 | 0.158 | |
| **Cyfanswm: Arian Treigl** | **0.625** | **0.625** | **0.627** | **-** |
| **Cyfanswm** | **7.157** | **7.157** | **5.290** | **1.417** |

56 Nodir y dull ariannu a ragwelir ar gyfer y gwariant cyfalaf isod:

| Cyllid | Swm £m |
|---|---|
| Benthyca | 4.563 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 0.727 |
| **Cyfanswm** | **5.290** |

**BENTHYCA**

57 Mae gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu'n bennaf trwy fenthyciadau allanol, ond yn y tymor byr mae'r Awdurdod yn defnyddio arian refeniw dros ben, a elwir yn fenthyca mewnol.

58 Mae'r Awdurdod yn parhau i ddefnyddio benthyca mewnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r benthyciad cyfalaf sydd ei angen, felly y'i cyfrifwyd yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), wedi'i ariannu'n llawn gan ddyled ar ffurf benthyciadau allanol, gan fod arian parod o gronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian parod yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio dros dro er mwyn ariannu gwariant cyfalaf ac i gynhyrchu arbedion refeniw. Fodd bynnag, wrth i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio, rhaid cyfnewid y benthyca mewnol am fenthyca allanol.

**DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WEDI'U CLUSTNODI**

59 Nod cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yw darparu cyllid i'w fuddsoddi yng ngweithgareddau'r dyfodol ac i fod yn rhwyd ddiogelwch rhag heriau ariannol tymor byr o ganlyniad i ofynion gweithredu neu bwysau annisgwyl.

60 Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi sydd werth £6.22m, cyllid a gasglwyd dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd llithro yn dilyn y pandemig o ran recriwtio a chyflawni prosiectau.

61 Yn 2022/23 neilltuwyd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer ariannu costau a oedd i fod i gael eu hysgwyddo yn 2022/23, ond na ellid eu cwblhau ac a ohiriwyd oherwydd problemau â'r gadwyn gyflenwi. Hefyd, mae cronfeydd wrth gefn wedi'u sefydlu er mwyn ariannu codiadau mewn cyfraddau llog, cynnydd mewn chwyddiant, gwelliannau i'r system a gwelliannau i'r gwasanaeth.

62 Mae'r alldro amodol yn rhagdybio y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn, i wneud iawn am y gorwariant o £0.937m. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn cael ei adolygu fel rhan o broses monitro'r gyllideb.

**DANGOSYDDION DARBODUS – CH2 2023/24**

63 Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei wariant cyfalaf a'i fenthyciadau trwy gyfeirio at y dangosyddion canlynol. Bellach mae Cod Darbodus CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i adrodd ar y rhain bob chwarter. Cyfrifir y dangosyddion yn seiliedig ar wybodaeth Strategaeth Cyfalaf 2023/24 a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2023

**Gwariant Cyfalaf**

64 Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwariant cyfalaf ac mae'n cynllunio gwariant cyfalaf fel y nodir isod:

| | **2022/23 gwirioneddol £m** | **2023/24 rhagolwg £m** | **cyllideb 2024/25 £m** | **cyllideb 2025/26 £m** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 3.366 | 5.290 | 5.834 | 5.658 |

65 Ceir manylion pellach am brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol hyd yn hyn o fewn adran Rhaglen Gyfalaf yr adroddiad hwn.

### Gofyniad Ariannu Cyfalaf

66 Mae swm cronnol yr Awdurdod o gyllid dyled sy'n weddill yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae hwn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir gan ddyled ac yn lleihau gydag MRP a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyledion.

| | 31.03.23 gwirioneddol £m | 2023/24* rhagolwg £m | 2024/25* rhagolwg £m | 2025/26* rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 28.877 | 32.158 | 34.407 | 36.749 |

*Mae'r tabl uchod yn cynnwys costau'r ganolfan hyfforddi arfaethedig.

### Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf

67 Mae canllawiau statudol yn nodi y dylai dyled aros yn is na'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio ac yn disgwyl parhau i gydymffurfio â'r gofyniad hwn yn y tymor canolig fel y dangosir isod.

| | 31.03.23 gwirioneddol £m | 30.09.23 gwirioneddol £m | 2023/24* rhagolwg £m | Cyllideb 2024/25* £m | Cyllideb 2025/26* £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Prydlesi Cyllid) | 26.650 | 22.200 | 20.787 | 25.960 | 29.683 |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 28.877 | 32.158 | 32.158 | 34.407 | 36.749 |

### Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol

68 Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod osod terfyn benthyca fforddiadwy (a elwir hefyd yn Derfyn Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllawiau statudol, mae "ffin weithredol" is hefyd yn cael ei gosod fel lefel rhybudd pe bai dyled yn nesáu at y terfyn.

| | Uchafswm dyled Ch2 2023/24 £m | Dyled ar 30.09.23 £m | Terfyn Awdurdodedig 2023/24 £m | Ffin Weithredol 2023/24 £m | Wedi cydymffurfio Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 26.650 | 22.200 | 30.999 | 28.990 | Do |

69 Gan fod y ffin weithredol yn arf rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, nid yw'n arwyddocaol os yw'r ffin weithredol yn cael ei thorri ar adegau oherwydd amrywiadau mewn llif arian, ac nid yw hyn yn cael ei gyfrif fel methiant cydymffurfio.

**Cyfran Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net**

70 Er na chaiff gwariant cyfalaf ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac MRP yn cael ei godi ar refeniw. Ystyrir y tâl blynyddol net yn gostau ariannu; mae hwn yn cael ei gymharu â'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a ariennir o'r ardoll a grantiau cyffredinol y llywodraeth.

| | **2022/23 gwirioneddol** | **2023/24 rhagolwg** | **Cyllideb 2024/25** | **Cyllideb 2025/26** |
|---|---|---|---|---|
| Costau ariannu (£m) | 2.351 | 2.605 | 3.626 | 4.410 |
| Cyfran y llif refeniw net | 5.96% | 5.87% | 7.58% | 8.65% |

**Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys**

71 Mae'r dangosyddion hyn o fewn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ch2 2023/24.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac yn sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith atal. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodir. |
| Staffio | Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn cefnogi strategaeth hirdymor y gweithlu i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **22 Ionawr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Pennu Cyllideb 2024/25 a Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) drosolwg manwl o'r gyllideb a gynhwysir yn Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig yr Awdurdod (MTRS) 2024/25 – 2026/27, gan gynnwys risgiau ac ansicrwydd cysylltiedig.

2 Mae'r adroddiad hefyd yn cadarnhau amcangyfrif o’r hyn sy’n ofynnol o ran y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 a'r rhaglen gyfalaf 10 mlynedd. Yn unol â’r Gorchymyn Cynllun Cyfuno, mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i wariant net y Gwasanaeth gael ei dalu gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol drwy'r ardoll.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

3 Mae'n ofynnol i’r Awdurdod ddarparu ffigurau dangosol ar gyfer ardoll ariannol 2024/25 i’r awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr 2023, a chadarnhau'r ffigurau terfynol erbyn 16 Chwefror 2024. Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi craffu ar y broses o gynllunio'r gyllideb, a chafodd asesiad cynllunio dangosol o £49.194m ei gyflwyno i’r Panel Gweithredol ar 18 Rhagfyr 2023 (£44.4.394m ar gyfer 2023/24).

4 Y gyllideb refeniw ddangosol derfynol ar gyfer 2024/25 yw £49.263m sy'n adlewyrchu gostyngiad pellach yng nghyllid grant Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023 a’r camau gweithredu a gymerwyd i leihau gwariant eto. Mae hyn yn cynnwys defnyddio £0.924m o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn ystod 2024/25, gan roi cyfanswm net o £48.322m i'w dalu o ardoll yr awdurdod lleol. Mae hyn yn gynnydd cyllidebol o 8.85%.

## ARGYMHELLION

5 Gofynnir i'r Aelodau:

i. Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25;
ii. cymeradwyo'r asesiad cynllunio ariannol terfynol o ofyniad cyllidebol net o £48.322m ar gyfer 2024/25 gan gynnwys defnyddio £0.924m mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi;
iii. nodi'r gofyniad i adolygu'r gweithgareddau lleihau tanau bwriadol yn ystod 2024/25 i ystyried y ddarpariaeth yn y dyfodol yn dilyn y gostyngiadau mewn grantiau;
iv. nodi'r risgiau a'r ansicrwydd gweddilliol sy'n wynebu'r Awdurdod yn 2024/25 mewn perthynas â'r dyfarniadau cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol a chefnogaeth ariannol ar gyfer y codiadau pensiwn disgwyliedig;
v. cymeradwyo'r asesiad cynllunio terfynol o £5.676m ar gyfer rhaglen gyfalaf 2024/25;
vi. nodi'r cynllun cyfalaf 10 mlynedd a'r gofyniad ar wahân i ystyried yr achos busnes ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd yn ystod 2024/25; a
vii. chymeradwyo cyfleu'r ardoll ariannol ddrafft i bob awdurdod lleol cyfansoddol.

## SYLWADAU ODDI WRTH BWYLLGORAU ERAILL A DIWRNODAU CYNLLUNIO'R AELODAU

6 Mae'r cynigion yn y papur hwn yn gyson â'r dull gosod cyllideb a gafodd ei amlinellu i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 16 Hydref 2023.

7 Cyfarfu Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yr Awdurdod (y Gweithgor) ar bedwar achlysur rhwng Hydref 2023 a Rhagfyr 2023. Cafodd canlyniadau gwaith y Gweithgor eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio waith y Grŵp a chadarnhaodd yr asesiad cynllunio cychwynnol o £49.194m a'r cynnig i wneud rhagor o waith i nodi cyfleoedd am ragor o ostyngiadau a/neu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

8 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 18 Rhagfyr, trafodwyd yr asesiad cynllunio drafft cychwynnol a chafodd gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb ei nodi, gan gynnwys yr asesiad cynllunio drafft a'r gwaith oedd ar ôl i'w wneud.

**CEFNDIR**

9 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Rhaid cyfleu'r ardoll ariannol ddangosol i awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, a rhaid cadarnhau'r ardoll derfynol erbyn 16 Chwefror, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

10 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddu ar gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig. O ganlyniad, mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gostau ac ar werthuso risgiau ac ansicrwydd.

11 Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth strategol a modelau ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau, mae'r Awdurdod wrthi'n cynnal Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR), a fydd yn parhau yn 2024/25. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliwyd asesiad ariannol lefel uchel cychwynnol yn ystod mis Chwefror 2023 a oedd yn amcangyfrif y byddai'r cynnydd yn y gyllideb o flwyddyn i flwyddyn oddeutu £6m. Mae hyn yn gynnydd o 13.5%, gyda 5% ohono'n mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol sydd wedi deillio o broses gosod cyllideb 2023/24. Nid oedd y camau a gymerwyd wrth osod cyllideb 2023/24 yn gynaliadwy gan eu bod yn gwneud defnydd parhaus o gronfeydd wrth gefn.

12 Fel rhan o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, cytunodd yr Awdurdod y dylid ymgynghori ar nifer o opsiynau, gan gynnwys dau opsiwn a fyddai'n golygu gwneud newidiadau strwythurol i leihau gwariant ar sail gylchol hyd at £2.4m. O weld canlyniadau'r ymarferiad ymgynghori, cadarnhaodd yr Awdurdod mai Opsiwn 1 oedden nhw'n ei ffafrio, dewis oedd yn gofyn am gynnydd o £6m yn y gyllideb.

13 Mae'r broses o osod cyllideb wedi mabwysiadu'r model presennol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau, tra bo'r ECR yn parhau.

14 Cafodd y broses o osod cyllideb ei goruchwylio gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor), sef un o is–grwpiau'r Pwyllgor Archwilio a sefydlwyd i graffu ar y broses o osod cyllidebau, gan gynnwys pob maes incwm a gwariant.

15 Sefydlwyd y Gweithgor gan yr Awdurdod ac mae pob awdurdod lleol cyfansoddol yn cael ei gynrychioli arno. Mae'r Gweithgor wedi cyfarfod bedair gwaith rhwng Hydref a Thachwedd 2023, gyda sesiwn adborth ychwanegol i'r holl Aelodau fel rhan o gyfarfod Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar 4 Rhagfyr. Rhoddodd y Gweithgor ystyriaeth i holl feysydd gwariant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) . Roedd y cyfarfodydd yn canolbwyntio ar wariant uniongyrchol ar gyflogau, gwariant nad yw'n gyflogau, ariannu cyfalaf, llog a phrydlesau.

16 Cafodd diweddariad ar y broses o bennu'r gyllideb ei adrodd i Aelodau'r Awdurdod drwy gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a’r Panel Gweithredol ar 18 Rhagfyr 2023. Roedd yr adroddiadau hyn yn cadarnhau asesiad cyllideb o £49.194m gan nodi nifer o ffactorau risg ac ansicrwydd bryd hynny. Mae'r gyllideb ddangosol o £49.194m yn cynrychioli cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 10.8%.

**GWYBODAETH**

17 Nodir Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig (MTRS) drafft yr Awdurdod yn Atodiad 1 ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a rheoli'r Awdurdod yn ariannol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2027. Mae'r MTRS yn darparu cadarnhad o'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir, gan gynnwys risgiau ac ansicrwydd hysbys.

18 Mae’r gwaith cynllunio cyllideb manwl ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 wedi parhau yn unol â'r rhagdybiaethau, y risgiau a'r ansicrwydd cynllunio allweddol a gafodd eu hadrodd i'r Aelodau’n flaenorol ac a gafodd eu cadarnhau yn Adran 13 o'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig.

19 Ers y cyfarfodydd ar 18 Rhagfyr 2023, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gostyngiad gwerth cyfanswm o £0.183m yn y cyllid grant ar gyfer gwaith lleihau tanau bwriadol a gwaith ieuenctid a phobl ifanc yr Awdurdod. Mae hwn wedi'i liniaru'n rhannol drwy adolygiad mewnol pellach ac mae'r asesiad drafft terfynol yn nodi gofyniad cyllidebol o £49.263m. Yn ogystal, argymhellir bod £0.924m o gronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio yn ystod 2024/25 gan roi gofyniad cyllideb net o £48.322m i'w dalu o ardoll yr awdurdod lleol, sy'n gynnydd o 8.85%.

20 Yn y tymor byr, bu'n rhaid rheoli'r gostyngiad yn yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith lleihau tanau bwriadol. Fodd bynnag, gan nad yw'r maes gweithgarwch hwn wedi'i ystyried yn swyddogaeth graidd yn flaenorol, bydd yn cael ei adolygu yn ystod 2024/25 i ddatblygu cynigion ar gyfer blynyddoedd i ddod.

21 Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r symudiadau rhwng y gyllideb ddrafft a adroddwyd i'r Aelodau ar 18 Rhagfyr 2023 a'r asesiad cynllunio terfynol.

| | **2023/24** | **Rhag 23** | **Adolygiad Pellach** | **Gofyniad Ardoll Terfynol** |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogeion | 31.826 | 35.209 | 0.248 | 35.457 |
| Nad yw’n gyflog | 13.567 | 15.054 | -1.248 | 13.806 |
| Incwm | -0.999 | -1.069 | 0.128 | -0.941 |
| **Cyfanswm** | **44.394** | **49.194** | **-0.872** | **48.322** |
| % Cynnydd | | 10.80% | | 8.85% |

22 Mae costau cyflogeion yn gyfrifol am fwy na 70% o'r gwariant net, a'r asesiad drafft ar gyfer 2024/25 yw £35.2m. Mae hyn yn cynnwys £34.192m o gostau cyflogres uniongyrchol sy'n ymwneud â 971 aelod o staff, gydag asesiad cynllunio presennol o 4% mewn dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hwn yn parhau i fod yn un o'r prif feysydd ansicrwydd a risg, gyda phwysau cost o £0.34m ar gyfer pob cynnydd o 1%. Mae'r asesiad cynllunio hefyd yn tybio pwysau cost net ychwanegol o £0.4m mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr tuag at Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Disgwylir i'r cynnydd gwirioneddol fod oddeutu £0.7m, ac er y rhagwelir y daw cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, nid yw hyn wedi'i gadarnhau eto.

23 Mae'r dadansoddiad o'r costau cyflogres uniongyrchol wedi'i ddarparu isod, gan gadarnhau bod £34.192m yn ymwneud â chyflogeion sy'n gweithio mewn rolau cyflwyno'r gwasanaethau. Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth i gefnogi'r cynnydd mewn personél dyletswydd rhan amser er mwyn meithrin gallu a chydnerthedd o ran ymateb gweithredol.

| **Dadansoddiad o Gostau Uniongyrchol ar Gyflogau** | **2024/25<br>£'m** |
|---|---:|
| Gwasanaethau Ymateb | 28.715 |
| Gwasanaethau Amddiffyn ac Atal | 2.779 |
| Corfforaethol: Cymorth Proffesiynol | 2.698 |
| **Gofynion y Gyllideb Staffio** | **34.192** |

24 Yr asesiad cyllideb drafft ar gyfer gwariant nad yw'n gyflog yw £13.086m, gan gynnwys £2.8m ar gyfer costau ariannu cyfalaf. Mae'r elfennau nad ydynt yn gyflog sy'n weddill wedi bod yn destun craffu ar draws pob adran er mwyn lleihau a rheoli gwariant. Mae pwysau chwyddiant sylweddol i'w deimlo mewn nifer o feysydd gwariant, gan gynnwys gweithrediadau technegol, TGCh, y fflyd a chyfleusterau.

25 Mae'r asesiad cynllunio presennol yn cynnwys costau ariannu cyfalaf o £2.8m, sy'n cynnwys costau llog o £0.9m ac isafswm darpariaeth refeniw o £1.9m. Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn aros yn agos i'r lefelau presennol drwy'r rhan fwyaf o 2024. Yr asesiad cynllunio ar gyfer benthyciadau yn y dyfodol yw cyfradd llog o 5.25%, yn seiliedig ar gyngor gan gynghorwyr rheoli trysorlys yr Awdurdod. Mae costau llog yn cynnwys yr angen i ail-ariannu benthyciadau a fydd yn cyrraedd adeg aeddfedu yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac mae hyn eisoes wedi'i adrodd yn adroddiadau diweddaru Rheoli'r Trysorlys. Mae'r costau ariannu cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r ganolfan hyfforddi wedi cael eu hepgor o'r asesiad gwreiddiol, gan arwain at ostyngiad o £1.1m o gymharu â'r asesiad cynllunio cychwynnol.

26 Mae'r costau prydles yn £0.452m yn 2024/25. Adroddwyd ar y rhain ar wahân tra bo'r gwaith yn parhau i weithredu IFRS16, o 2024/25. Gofyniad cyfrifyddu technegol yw IFRS 16 sy'n defnyddio dull hollol newydd o gyfrifo prydlesi, o'r enw'r model 'hawl defnyddio'. Mae hyn yn golygu, os oes gan y Gwasanaeth reolaeth dros, neu hawl i ddefnyddio, ased y maent yn ei rentu, caiff yr ased ei ddosbarthu fel prydles at ddibenion cyfrifyddu ac, o dan y rheolau newydd, rhaid ei gydnabod ar y fantolen.

**RHAGLEN GYFALAF**

27 Mae cynllun cyfalaf 10 mlynedd wedi'i ddyfeisio, fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Mae'r Rhaglen Gyfalaf wedi cael ei hadolygu'n feirniadol gan arwain at ail-broffilio cynlluniau ac opsiynau cyllido amgen i reoli'n ofalus yr effaith ar Ffioedd Ariannu Cyfalaf. Mae blaenoriaeth wedi'i rhoi i gynlluniau sy'n ofynnol yn statudol.

28 Dylid nodi nad oes darpariaeth wedi'i gwneud o fewn MTRS ar gyfer datblygu canolfan hyfforddi newydd. Bydd hyn yn amodol ar ystyriaeth ar wahân gan yr Awdurdod yn dilyn cynllunio manwl a gwerthusiad o'r opsiynau.

29 Mae'r Rhaglen Gyfalaf 10 mlynedd, a nodir yn Adran 10 o'r MTRS, yn cynnwys y Rhaglen Ddiwygiedig ar gyfer 2023/24, yr amcangyfrif ar gyfer 2024/25, a rhaglen ddangosol o brosiectau ar gyfer y cyfnod 2025/26 i 2033/34. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn adlewyrchu'r flwyddyn y bydd prosiect yn cychwyn ac nid o reidrwydd y flwyddyn y bydd yr holl wariant yn cael ei wneud, gan y bydd hyn yn dibynnu ar hyd oes y prosiect. Oherwydd yr amseroedd aros hirach sy'n cael eu profi am beiriannau a cherbydau, er mwyn cyflawni'r rhaglen amnewid fflyd, efallai y bydd angen gwneud archebion cyn y flwyddyn ariannol y mae angen y cerbydau/peiriannau newydd.

30 Mae'r effaith ar refeniw o ariannu'r Rhaglen Gyfalaf 10 mlynedd trwy fenthyca wedi'i chynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Oherwydd fforddiadwyedd ac effaith yr hinsawdd economaidd bresennol, bu'n rhaid adolygu cyfnod cyflawni'r prosiectau a chynnwys pwysau cyllideb refeniw, o 2025/26 ymlaen ar gyfer Taliadau Ariannu Cyfalaf.

**CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY**

31 Er mwyn cadw'r cynnydd yn y gyllideb ar 8.85%, bydd angen defnyddio £0.924m o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Balans y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy ar 31 Mawrth 2023 oedd £7.702m, gan gynnwys Balans Cronfa Gyffredinol o £1.480m, a Chronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi o £6.221m.

32 Mae Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn Ariannol yr Awdurdod yn darparu y bydd yr Awdurdod yn ceisio osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu diffyg cyffredinol yn y gyllideb refeniw net, gan fod hyn yn cynrychioli sefyllfa ariannol anghynaliadwy. Fel yr adroddwyd yn y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig ar gyfer 2024/25, bydd effaith dyfarniadau cyflog a phwysau chwyddiant yn 2023/24, cyn belled ag y bo modd, yn cael ei rheoli yn ystod y flwyddyn drwy waith rheoli cyllideb cadarn. Ar 30 Tachwedd 2023, y sefyllfa alldro a ragwelir ar gyfer cyllideb refeniw 2023/24 yw gorwariant o £0.937m y bydd, os yw'n digwydd, angen talu amdano o Gronfeydd Wrth Gefn.

33 Fel y gwelir, disgwylir i lefel y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd leihau dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan fod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio yn unol â'r diben a fwriadwyd.

**ARDOLL YR AWDURDODAU CYFANSODDOL**

34 Yn unol â’r Gorchymyn Cynllun Cyfuno mae'r Ardoll fesul Awdurdod Cyfansoddol yn cael ei phennu yn ôl y boblogaeth.

35 Mae Is-Grŵp Dosbarthu Llywodraeth Cymru, sy'n cynghori ar faint o gyllid refeniw mae pob awdurdod lleol yn ei dderbyn, wedi penderfynu defnyddio’r amcangyfrifon poblogaeth yng nghanol 2022 a ddaeth o’r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer setliad Llywodraeth Leol 2024/25. Yn seiliedig ar y data poblogaeth yma, dangosir y cyfraniad wedi'i ddiweddaru fesul Awdurdod Cyfansoddol yn Adran 15 y MTRS.

**LLYWODRAETHU ARIANNOL**

36 Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Mae'n ofynnol i'r awdurdod, yn unol â gofynion y Gorchymyn Cynllun Cyfuno, gyflwyno amcangyfrif o'i gostau net ar gyfer y flwyddyn ganlynol i'w Awdurdodau Cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, cyn penderfynu ar y gyllideb derfynol erbyn 15 Chwefror cyn y flwyddyn ariannol berthnasol.

37 Hoffem atgoffa’r Aelodau mai cyfrifoldeb yr Awdurdodau Cyfansoddol, drwy Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a'r pwerau sydd wedi'u cynnwys o fewn y Gorchymyn Cynllun Cyfuno, yw cyflawni eu dyletswyddau i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub effeithiol yn eu hardaloedd, drwy'r Awdurdod Tân ac Achub Cyfunol. Dyletswydd aelodau; Mae gan yr aelodau ddyletswydd i'r Awdurdod Tân, nid yr awdurdodau cyfansoddol.

38 O dan y Cyfansoddiad, mae cymeradwyo'r gyllideb a chyhoeddi'r ardoll yn swyddogaeth sydd wedi'i chadw ar gyfer yr Awdurdod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion Llesiant a Gwelliant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ar hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn nodi gofyniad cyllideb o £50.4m. Yn dilyn y gwaith cynllunio manwl, yr asesiad presennol yw £49.194m. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb gytbwys sy'n seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Mae dros 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor arwyddocaol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nododd y Prif Swyddog Tân yn cynnwys y trafodaethau cyflog parhaus yn ogystal â'r angen i recriwtio mwy o staff dyletswydd rhan amser a meithrin cydnerthedd corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion gosod cyllideb. |
| Risgiau | Mae'r prif risgiau ac ansicrwydd yn ymwneud â chyllideb 2024/25 wedi cael eu hystyried a'u nodi yn y MTRS. |

# Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig
## 2024–2027

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



# CYNNWYS

1. Pwrpas y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig .......................................... 3

2. Nodau'r Strategaeth .......................................................................................... 3

3. Egwyddorion y Strategaeth ............................................................................. 4

4. Adolygu'r Strategaeth ....................................................................................... 4

5. Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ...................................................................... 5

6. Cyd-destun Ariannol ......................................................................................... 6

7. Y Sefyllfa Ariannol Gyfredol 2023/24 ............................................................... 6

8. Pwysau Cyllidebol Tymor Canolig .................................................................. 7

9. Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant Tymor Canolig ......................................... 7

10. Ariannu ac Amcangyfrifon Cyfalaf ................................................................ 8

11. Rhagolygon Cyllidebol Dangosol 2024/25 i 2026/27 ..................................... 9

12. Cronfeydd Wrth Gefn.......................................................................................12

13. Asesiad Risg .....................................................................................................15

14. Cydnerthedd Ariannol ..................................................................................... 18

15. Ardoll yr Awdurdodau Cyfansoddol.................................................................... 20

16. Casgliad ............................................................................................................. 21

## 1. Pwrpas y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig (MTRS)

1.1 Dyma Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig (MTRS) Awdurdod Tân Gogledd Cymru. Mae'n cwmpasu cyfnod o dair blynedd ond bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol i adlewyrchu natur ddeinamig y gwasanaeth tân a newidiadau o ran cyllid. Mae'n disgrifio cyfeiriad ariannol y sefydliad ac yn amlinellu'r pwysau ariannol.

1.2 Yn yr hinsawdd economaidd fyd-eang gyfredol mae rheolaeth ariannol gyhoeddus yn bwysicach nag erioed. Mae bod â dealltwriaeth drylwyr o'r rhagolygon ariannol a'r effaith gysylltiedig ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol yn fan cychwyn hanfodol ar gyfer cynllunio ar gyfer y dyfodol a sicrhau cynaliadwyedd. Mae adnoddau'n mynd yn brinnach, sydd, ynghyd â'r pwysau a'r galw cynyddol ar wasanaethau, yn ei gwneud hi'n fwy anodd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol

1.3 Mae'r MTRS yn darparu opsiynau ar gyfer cyflwyno cyllideb gynaliadwy a rhaglen gyfalaf yn y tymor canolig. Mae hefyd yn nodi sut gall yr Awdurdod ddarparu'r adnoddau i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP), o fewn yr hinsawdd ariannol heriol bresennol.

1.3 Mae'r MTRS yn gosod y cyd-destun ariannol ar gyfer penderfyniadau'r Awdurdod ar y gyllideb refeniw, y rhaglen gyfalaf a'r ardoll.

1.4 Mae'r strategaeth ariannol gyffredinol yn ceisio cyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yr Awdurdod, 2024 – 2029.

## 2. Nodau'r Strategaeth

2.1 Mae'r MTRS yn cynorthwyo i:

(i) Gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024–2029;

(ii) Gwella cynllunio ariannol a rheolaeth ariannol dros adnoddau'r Awdurdod, refeniw yn ogystal â chyfalaf;

(iii) Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r Awdurdod, yn fewnol ac allanol, i gael y budd mwyaf posibl ohonynt;

(iv) Sicrhau bod yr Awdurdod yn darparu gwerth am arian ac yn parhau i geisio gwella effeithlonrwydd;

(v) Adolygu polisi'r Awdurdod ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, sicrhau bod y sefyllfa'n parhau i fod yn gynaliadwy a bod digon o adnoddau dros y tymor canolig;

(vi) Ymateb i bwysau allanol, gan gynnwys newidiadau i gyllid sy'n deillio o gyhoeddiadau ariannu blynyddol y Llywodraeth.

(vii) Sicrhau bod cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn gynaliadwy ac yn effeithlon.

## 3. Egwyddorion y Strategaeth

3.1 Dyma'r prif egwyddorion sy'n sail i MTRS 2024/25–2026/27 yr Awdurdod:

(i) Bydd gwariant cyffredinol yr Awdurdod yn cael ei gynnwys yn yr amcangyfrifon cymeradwy bob blwyddyn.

(ii) Bydd yr Awdurdod yn cadw Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar isafswm doeth, a gaiff ei adolygu bob blwyddyn, i dalu am unrhyw wariant mawr neu golli cyllid nad oedd wedi'i ragweld. Bydd yn cymryd ymagwedd hyblyg at ddefnyddio unrhyw arian cronfa wrth gefn sydd uwchben y lefel hon lle bo'n briodol, gan gydbwyso'r costau cyfle yn sgil cadw cronfeydd wrth gefn yn erbyn y buddion a geir o ddulliau gweithredu amgen.

(iii) Bydd yr Awdurdod yn cadw cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi at ddibenion penodol dim ond pan fo'n briodol, ac sy'n gyson â chyflawni amcanion.

(iv) Bydd yr Awdurdod yn parhau i roi blaenoriaeth i gyflawni Gwerth am Arian, gan fod yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol wrth ddefnyddio adnoddau; wrth sefydlu'r fframwaith ar gyfer y Gwasanaeth Tân yng Ngogledd Cymru ac; wrth wneud penderfyniadau comisiynu a chaffael.

(v) Bydd Trysorydd yr Awdurdod yn paratoi rhaglen dreigl o ragolygon cyllideb refeniw tair blynedd i lywio penderfyniadau'r Awdurdod ar y gyllideb a'r ardoll.

(vi) Bydd yr Awdurdod, gyda chefnogaeth Trysorydd a Phrif Swyddog Tân yr Awdurdod, yn parhau i gyfrannu at adolygiadau cenedlaethol o gyllid tân ac yn manteisio ar bob cyfle i gymryd rhan er mwyn ariannu Awdurdod Tân Gogledd Cymru mewn modd teg a chyson.

## 4. Adolygu'r Strategaeth

4.1 Cafodd adolygiad MTRS yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 i 2026/27 ei gynnal o dan y themâu allweddol canlynol:

(i) Y cyd-destun ariannol mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo;

(ii) Sefyllfa ariannol bresennol yr Awdurdod;

(iii) Effaith y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) gan gynnwys effaith yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR);

(iv) Effaith chwyddiant;

(v) Y pwysau cyllidebol fydd yn wynebu'r Awdurdod yn y dyfodol dros gyfnod y strategaeth;

(vi) Arbedion cyllidebol;

(vii) Rhaglen gyfalaf yr Awdurdod;

(viii) Polisi cronfeydd wrth gefn;

(ix) Asesiad risg

(x) Cydnerthedd Ariannol.

## 5. Cynllun Rheoli Risg Cymunedol

5.1 Er mwyn cyflawni'r Strategaeth yn llwyddiannus, rhaid i'r Prif Swyddog Tân reoli set gymhleth o adnoddau, gofynion a blaenoriaethau gan adolygu a diwygio cynlluniau i fodloni'r proffil risg ar gyfer gwasanaethau tân o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael.

5.2 Gan gydnabod yr angen i gynllunio ar gyfer y tymor hwy, mae'r Awdurdod yn adolygu ei drefniadau cynllunio, ac o ganlyniad bydd yn cyflwyno Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 5 mlynedd (CRMP) yn 2024/25. Mae'r CRMP yn dangos y ffordd mae'r Awdurdod yn bwriadu mynd i'r afael â'r risgiau, y bygythiadau a'r heriau sy'n wynebu cymunedau Gogledd Cymru a sut mae'n bwriadu eu cwrdd a'u lleihau, gan sicrhau bod asedau ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n llwyddiannus, a darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau.

5.3 Mae MTRS yr Awdurdod wedi'i seilio ar gynllunio'r gweithlu a rhaglenni cyfalaf sy'n cyd-fynd â'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol a pharhau i ddarparu gwasanaeth tân effeithlon ac effeithiol i gymunedau Gogledd Cymru.

5.4 Fel rhan o fethodoleg y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, mae'r Gwasanaeth yn nodi peryglon a'r lefel gysylltiedig o risg ledled Gogledd Cymru. Mae strategaethau Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol Priodol yn cael eu datblygu a'u monitro ac mae adnoddau'n cael eu defnyddio i sicrhau ymateb effeithiol.

## 6. Cyd-destun Ariannol

6.1 **Cyllid** – Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael ei dderbyn drwy ardoll gan y chwe awdurdod cyfansoddol o fewn Gogledd Cymru, a hynny'n gymesur â phoblogaeth pob awdurdod. Mae'r ffigwr ar gyfer poblogaeth pob awdurdod lleol yn cael ei osod gan Is-grŵp Dosbarthu Llywodraeth Cymru yn flynyddol.

6.2 Rhaid i bob Awdurdod Tân ac Achub, cyn 31 Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn, gyflwyno i bob awdurdod cyfansoddol amcangyfrif o'i gostau net ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Yna, cyn 15 Chwefror, rhaid iddyn nhw hysbysu pob awdurdod cyfansoddol am y cyfraniad y mae'n rhaid i'r awdurdod hwnnw ei wneud yn y flwyddyn ariannol nesaf.

6.3 Yn ogystal, mae cyllid hefyd yn cael ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru, drwy grantiau. Mae gwerth y grantiau wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys tynnu'n ôl y Grant Lleihau Tanau Bwriadol ar gyfer 2024/25. Mae'r MTRS yn cynnwys cyllid grant o £0.364m ar gyfer 2024/25.

6.4 Mae'r MTRS hwn fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys cynnydd o £3.973m yn y gwariant refeniw net ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, sy'n cyfateb i gynnydd o 8.85%. Nodir yr effaith ar ardoll Awdurdodau Cyfansoddol yn Adran 15. Mae cynnydd o 9.01% a 5.26% hefyd wedi'i gynnwys ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Gwneir penderfyniadau terfynol ar y gwariant refeniw net gwirioneddol a'r ardoll gysylltiedig bob blwyddyn gan yr Awdurdod yn seiliedig ar yr amgylchiadau ariannol ar y pryd.

## 7. Y Sefyllfa Ariannol Gyfredol 2023/24

7.1 Cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 yw £44.39m. Mae'r adroddiad monitro refeniw diweddaraf yn dangos gorwariant cyllidebol amcangyfrifedig o £0.937m, fel ar 30 Tachwedd 2023. Bydd y gorwariant yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

| | Cyllideb (£m) | Rhagolwg (£m) | Amrywiant (£m) | Amrywiant (%) |
|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 31.872 | 31.578 | -0.294 | -0.92% |
| Eiddo | 3.516 | 4.092 | 0.576 | 16.38% |
| Cludiant | 1.271 | 1.416 | 0.145 | 11.46% |
| Cyflenwadau | 5.419 | 6.806 | 1.387 | 25.59% |
| Taliadau Trydydd Parti | 0.305 | 0.323 | 0.018 | 5.69% |
| Ariannu Cyfalaf a Thaliadau | 3.129 | 2.304 | -0.825 | -26.36% |
| Incwm | -1.118 | -1.188 | -0.07 | 6.32% |
| **Alldro a Ragolygir** | **44.394** | **45.331** | **0.937** | **2.11%** |

7.2 Yr Awdurdod sy'n cadw'r gyllideb i ddarparu adnoddau ariannol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth ymateb a gwarchod rhag tân gweithredol. Mae'r gyllideb Ariannu Cyfalaf yn cynnwys y ddarpariaeth refeniw ar gyfer ad-dalu benthyciadau, costau llog ac incwm buddsoddi.

7.3 Y rhagolwg terfynol ar gronfeydd refeniw wrth gefn ar gyfer 2023/24 yw £6.764m. Mae hyn yn ostyngiad o 13.9%, o'i gymharu â 2022/23.

## 8. Pwysau Cyllidebol Tymor Canolig yng Ngogledd Cymru

8.1 Wrth gyfrifo'r rhagolwg cyllidebol tymor canolig ar gyfer Gogledd Cymru, rhoddwyd ystyriaeth i nifer o ffactorau sy'n rhoi pwysau ar y gyllideb gan gynnwys:

(i) Cynnydd mewn cyflogau a phrisiau;

(ii) Pwysau cyllidebol;

(iii) Goblygiadau refeniw'r rhaglen gyfalaf.

8.2 **Cynnydd mewn cyflogau a phrisiau –** Mae'r rhagolygon cyllidebol dangosol ar gyfer 2024/25 – 2026/27 yn ystyried effaith chwyddiant ar gyllidebau lle bynnag y bo modd megis ynni, ardrethi busnes a'r cynnydd mewn rhenti ynghyd ag unrhyw gynnydd mewn contractau sy'n hysbys. Yn ogystal, mae'r amcangyfrifon ar gyfer dyfarniadau cyflog yn y dyfodol ar 4% yn 2024/25 a'r un peth yn y blynyddoedd i ddod.

8.3 **Pwysau cyllidebol –** Mae'r MTRS hefyd yn cynnwys amcangyfrifon o effaith prisiad Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r adolygiad tair blynedd o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

8.4 **Goblygiadau refeniw'r rhaglen gyfalaf –** Ar gyfer 2024/25 mae rhaglen gyfalaf 10 mlynedd wedi cael ei datblygu ac mae crynodeb ohoni yn Adran 10 isod. Mae goblygiadau'r rhaglen hon yn cael ystyriaeth lawn yn y MTRS.

## 9. Effeithlonrwydd a Chynhyrchiant Tymor Canolig

9.1 Roedd adroddiad y Prif Swyddog Tân i'r Aelodau ym mis Medi 2021 yn rhoi asesiad o'r sefyllfa. Roedd hwn yn cadarnhau mai'r prif heriau sy'n wynebu'r Awdurdod yw sicrhau bod digon o griwiau tân ar-alwad ar gael; sicrhau digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a bod â digon o allu corfforaethol i ddiwallu'r gofynion presennol a gofynion y dyfodol.

9.2 Yn dilyn yr asesiad hwn, cymeradwyodd yr Awdurdod nifer o adolygiadau mewnol gan gynnwys adolygiad o'r ddarpariaeth frys, adolygiad o'r system dyletswydd rhan amser (criwiau ar-alwad) ac adolygiad hyfforddiant i sicrhau diogelwch diffoddwyr tân. Ychwanegir at yr adolygiadau hyn drwy gyfrwng rhagor o waith mewn meysydd allweddol megis asesiadau tactegol tanau gwyllt a diheintio peiriannau tân, cit ac offer.

9.3 Yn ogystal, mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi gofyn am gynnal rhagor o waith sy'n canolbwyntio ar adeiladau prydles y Gwasanaeth ac adolygiad o'r fflyd bresennol.

9.4 Yn ystod 2023 dechreuodd yr Awdurdod gynnal adolygiad o'i drefniadau ar gyfer darparu ymateb brys i gymunedau Gogledd Cymru. Roedd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar dri opsiwn posibl ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Prif amcanion yr ECR oedd mynd i'r afael â'r heriau o ran gofal tân yng nghefn gwlad, sicrhau bod yna allu i ateb gofynion y gwasanaeth yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau amgylcheddol a thechnegol a hefyd sicrhau sefydlogrwydd ariannol yn y tymor byr a'r tymor canolig.

Trafododd yr Awdurdod ganlyniad yr ECR yn ei gyfarfodydd ar 16 Hydref a 18 Rhagfyr 2023, gan gynnwys ystyried nifer o opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Nid yw'r model terfynol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau wedi'i gadarnhau a bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2024/25 mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol i'w ystyried gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Nes bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, mae'r fframwaith ariannol yn seiliedig ar y modelau presennol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.

9.5 Yn 2023/24, cymeradwyodd yr Awdurdod ddyraniad cyllideb o £3m i brynu tir ar gyfer canolfan hyfforddi arfaethedig. Disgwylir i'r pryniant gael ei gwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Yn ystod 2024/25 bydd yr Awdurdod yn ystyried yr opsiynau ar gyfer ei datblygu yn y dyfodol i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer hyfforddiant hanfodol yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Nid yw'r MTFS yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y prosiect hwn gan fod cwmpas y prosiect a'r amseriadau cysylltiedig yn ansicr ar hyn o bryd.

## 10. Ariannu ac Amcangyfrifon Cyfalaf

10.1 Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r rhaglen gyfalaf 10 mlynedd:

| Disgrifiad o'r Prosiect | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m | 2031/32 £m | 2032/33 £m | 2033/34 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella TGCh | | 0.827 | 0.232 | 0.495 | 0.350 | - | 0.125 | 0.072 | 1.827 | 0.160 | 0.450 |
| Tyrau hyfforddi | 0.307 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 |
| Gwella gorsafoedd | 0.820 | 1.100 | 0.485 | 0.510 | 3.925 | 0.500 | 0.625 | 0.375 | 0.225 | 0.225 | 0.075 |
| Gwaith cynaliadwyedd | | 0.470 | - | 1.000 | - | - | - | - | - | - | - |
| Gwella Cyfleusterau Hyfforddi | | 0.300 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Peiriannau Tân | 0.475 | 0.427 | 0.940 | - | - | 2.241 | 4.412 | - | - | 1.540 | - |
| Cerbydau Arbenigol (Fflyd Goch) | 0.150 | - | 2.800 | 1.350 | 1.950 | 0.500 | 0.975 | - | 0.650 | - | 0.300 |
| Cerbydau Ysgafn | 0.538 | 0.166 | 0.400 | 0.447 | - | - | - | 0.329 | 0.895 | 0.447 | - |
| Cerbydau Ysgafn Arbenigol | | 0.632 | 0.530 | 0.210 | - | 0.336 | - | 0.090 | 1.289 | 0.040 | 0.090 |
| Offer yr Ochr Weithredol | | 0.290 | 0.595 | 0.150 | 0.300 | 0.100 | 1.200 | - | 0.075 | - | - |
| Offer Fflyd | | 0.050 | 0.136 | - | - | 0.033 | 0.020 | - | - | - | - |
| Tir y Ganolfan Hyfforddi | 3.000 | | | | | | | | | | |
| **Trosglwyddo Cyllid Ymlaen** | | | | | | | | | | | |
| Peiriannau Tân | | 0.960 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Gwaith cynaliadwyedd | | 0.150 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Gwariant Cyfalaf a Gynlluniwyd** | **5.290** | **5.676** | **6.424** | **4.468** | **6.830** | **4.015** | **7.662** | **1.171** | **5.266** | **2.717** | **1.220** |

10.2 Dyma’r meysydd allweddol i'w nodi yn y rhaglen arfaethedig:

(i) **Cynlluniau Adeiladu** – Mae’r rhaglen adnewyddu ystadau’n seiliedig ar ofynion gweithredol ac nid ydynt ar hyn o bryd yn cynnwys unrhyw gynlluniau a allai fod yn ofynnol yn dilyn newid i fodelau darparu gwasanaethau;

(ii) **Technoleg Gwybodaeth** – mae gan y Gwasanaeth nifer o brosiectau i gyflawni newid ac effeithlonrwydd trwy drawsnewid yn ogystal â phrosiect parhaus i adnewyddu’r caledwedd TG presennol;

(iii) **Cerbydau ac Offer** – rhaglen dreigl i adnewyddu cerbydau a rhaglenni ar gyfer uwchraddio offer gweithredol.

**Ariannu Cyfalaf**

| Amcangyfrifon Cyfalaf | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m | 2031/32 £m | 2032/33 £m | 2033/34 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | |
| Gwariant a Ragolygir | 5.290 | 5.676 | 6.424 | 4.468 | 6.830 | 4.015 | 7.662 | 1.171 | 5.266 | 2.717 | 1.220 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Ariannwyd gan:** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau a Chyfraniadau | 0.727 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Benthyca | 4.563 | 5.676 | 6.424 | 4.468 | 6.830 | 4.015 | 7.662 | 1.171 | 5.266 | 2.717 | 1.220 |
| **Cyfanswm Ariannu** | **5.290** | **5.676** | **6.424** | **4.468** | **6.830** | **4.015** | **7.662** | **1.171** | **5.266** | **2.717** | **1.220** |

10.3 Mae'r dull ariannu cyfalaf yn defnyddio benthyciadau a chronfeydd wrth gefn lle bo hynny'n briodol i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf. Caiff goblygiadau'r benthyca yma ar refeniw eu hystyried yn llawn yn Rhagolygon Cyllidebol y MTRS.

## 11. Rhagolygon Cyllidebol Dangosol 2024/25 i 2026/27

11.1 Mae'r holl bwysau cyllidebol, yr arbedion cyllidebol, argaeledd y cronfeydd wrth gefn a'r rhagdybiaethau ariannu a gafodd eu hamlinellu'n gynharach yn y Strategaeth hon wedi'u crynhoi isod.

| | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb sylfaenol | 44.394 | 49.246 | 53.087 |
| | | | |
| **Pwysau Cyllideb** | | | |
| Cyflog a Phensiynau | 3.797 | 1.986 | 1.393 |
| Chwyddiant ac eithrio cyflogau | 0.500 | 0.343 | 0.190 |
| Ariannwyd gan grant yn flaenorol - ART a Phoenix | 0.244 | - | - |
| **Buddsoddiadau ac eithrio cyflogau** | | | |
| Cit tanau gwyllt | 0.240 | - | - |
| Amnewid offer | 0.069 | 0.261 | - |
| Amnewid meddalwedd/caledwedd TG yr Ochr Weithredol | 0.200 | 0.472 | - |
| Uwchraddio llinell ISDN | 0.141 | - | |
| | | | |
| Effaith ariannu cyfalaf a phrydlesi ar refeniw | - 0.338 | 0.779 | 0.776 |
| **Gofynion y Gyllideb** | **49.246** | **53.087** | **55.445** |
| Defnydd o gronfeydd wrth gefn a gynlluniwyd | - 0.924 | - 0.410 | - |
| | | | |
| **Gofyniad Cyllideb Net** | **48.322** | **52.677** | **55.445** |
| **Cynnydd yn y Gyllideb** | **8.85%** | **9.01%** | **5.26%** |

11.3 Caiff y gyllideb a ragwelir ei dyrannu fel a ganlyn:

| 2023/24 £m | Dadansoddiad Goddrychol | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m |
|---|---|---|---|---|
| 30.495 | Costau Tâl Uniongyrchol | 34.192 | 36.177 | 37.570 |
| 1.377 | Costau eraill yn ymwneud â gweithwyr | 1.265 | 1.594 | 1.530 |
| 3.516 | Eiddo | 3.382 | 3.388 | 3.553 |
| 1.271 | Cludiant | 1.306 | 1.758 | 1.424 |
| 5.326 | Cyflenwadau, Gwasanaethau a Thrydydd Parti | 6.854 | 7.150 | 7.580 |
| 3.129 | Ariannu Cyfalaf | 2.737 | 3.454 | 4.081 |
| 0.398 | Prydlesi | 0.452 | 0.514 | 0.663 |
| - 1.118 | Incwm | - 0.941 | - 0.948 | - 0.956 |
| - | Trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn | - 0.924 | - 0.410 | - |
| **44.394** | **Gofynion y Gyllideb** | **48.322** | **52.677** | **55.445** |

11.4 **Trefniadau monitro'r gyllideb**
Mae Trysorydd yr Awdurdod a'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau bod gan yr Awdurdod drefniadau monitro amserol a chadarn ar waith a bod yr alldro ariannol yn cael ei adrodd i'r Awdurdod Tân ym mhob cyfarfod.

## 12. Cronfeydd Wrth Gefn

### Gwybodaeth gefndirol am Gronfeydd Wrth Gefn

12.1 Mae'r gofyniad am gronfeydd wrth gefn ariannol wedi'i gydnabod yn statudol. Mae adrannau 31A, 32 42A a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sy'n bilio a chanfod yng Nghymru a Lloegr roi sylw i lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer bodloni'r gwariant amcangyfrifedig yn y dyfodol wrth iddynt gyfrifo'r gofyniad cyllidebol.

12.2 Balansau arian parod yw cronfeydd wrth gefn. Cânt eu dal ar y fantolen nes eu bod yn cael eu gwario neu eu rhyddhau at ddibenion eraill. O ganlyniad, dim ond unwaith y gellir eu gwario, ac nid ydynt yn rhan o'r gyllideb sylfaenol.

12.3 Wrth sefydlu cronfeydd wrth gefn, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod). O dan adran 25 yn y Ddeddf Llywodraeth Leol, mae dyletswydd ar y Prif Swyddog Cyllid i adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon a'r cronfeydd wrth gefn, pan fo'r awdurdod yn ystyried ei ofynion cyllidebol.

12.4 Dylai'r cyngor, oddi wrth y Prif Swyddog Cyllid, gael ei osod yng nghyd-destun cofrestr risg yr awdurdod a chynlluniau tymor canolig ac ni ddylai ganolbwyntio ar ystyriaethau tymor byr yn unig. Gellid ystyried cydbwyso'r gyllideb flynyddol trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol fel opsiwn tymor byr dilys. Fodd bynnag, fel arfer, nid yw'n ddoeth i gronfeydd wrth gefn gael eu defnyddio i ariannu gwariant rheolaidd. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi dweud y dylai cynghorau fod yn arbennig o wyliadwrus ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn i fynd i'r afael â diffyg yn y cyllid presennol. Pan fydd camau o'r fath yn cael eu cymryd, dylid egluro hyn, a rhoi esboniad ynghylch sut y bydd gwariant o'r fath yn cael ei ariannu yn y tymor canolig i'r tymor hir.

12.4 Argymhellodd CIPFA bod Awdurdodau Tân, fel arfer da, yn cyhoeddi Datganiad Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r datganiad yn darparu esboniad ar gyfer pob cronfa wrth gefn ynghyd â'i gwerth. Mae hefyd yn cynnwys naratif yn esbonio a yw lefel bresennol a rhagamcanol y cronfeydd wrth gefn yn briodol, ac a yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cronfeydd wrth gefn yn ddigonol ac yn briodol. Mae'r Datganiad Strategaeth Wrth Gefn yn rhan o'r adroddiad alldro terfynol a gyflwynir i'r Awdurdod Tân. Mae gan yr Awdurdod hefyd Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2021, am gyfnod o 3 blynedd. Mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2024.

12.5 Dyma grynodeb o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar fantolen yr Awdurdod:

(i) **Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol** – ar gyfer digwyddiadau neu argyfyngau annisgwyl;

(ii) **Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi** – ar gyfer rhwymedigaethau hysbys neu a ragwelir.

12.6 Mae canllawiau CIPFA a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2003 yn cadarnhau y dylai cyrff perthnasol benderfynu ar faterion o'r fath ei hunain, gan ystyried amgylchiadau lleol perthnasol ac asesiad risg a chyngor y Prif Swyddog Cyllid.

**Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn**

12.7 Rhaid i'r Awdurdod gadw cronfeydd wrth gefn digonol fel y gall ymateb i bwysau cyllidebol annisgwyl heb fod yna effaith andwyol ar ei allu i gyflawni ei amcanion allweddol. Mae polisi'r Awdurdod ar gyfer cronfeydd wrth gefn a balansau yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion a risgiau'r sefydliad. Rhan o'r broses hon yw rhoi esboniad clir o'r defnydd presennol ac arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ac mae'r paragraffau isod yn ymdrin â hyn.

**Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol**

12.8 Bydd y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ddisgwyliedig ar 1 Ebrill 2024 yn £1.5m. Mae hyn yn cynrychioli tua 3% o wariant refeniw net 2024/25. Nid yw'r Awdurdod yn gosod isafswm ar lefelau balansau eu cronfa wrth gefn gyffredinol, ond mae'n arfer da i feddu ar gronfeydd wrth gefn ar 3% i 5%.

**Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi**

12.9 Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi'n cynrychioli cronfeydd sydd wedi'u neilltuo gan yr Awdurdod at ddibenion penodol. Mae rhagor o fanylion
am y cronfeydd wrth gefn i'w gweld fel rhan o Nodyn 9 yn y Datganiad o Gyfrifon – 2023-10-datganiad-o-gyfrifon-awdurdod-tân-ac-achub-gogledd-cymru
Mae'r tabl isod yn dangos y strategaeth gyffredinol ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn dros gyfnod y MTRS.

| | Balans 31-Maw-21 £'000 | Balans 31 Maw 22 £'000 | Balans 31 Maw 23 £'000 | Balans 31 Maw 24 £'000 | Balans 31 Maw 25 £'000 | Balans 31-Mar-26 £'000 | Balans 31-Mar-27 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaeth**<br>Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | 85 | 85 | 545 | 545 | 545 | 545 | 545 |
| Cronfa Wrth Gefn Ariannu Cyfalaf | 100 | 300 | 300 | 300 | 300 | 300 | 300 |
| Atgyweirio Hydrantau Tân | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 |
| Gwisg / Stoc PPE | 250 | 250 | 250 | 250 | 0 | 0 | 0 |
| Newid Trawsffurfiol | 800 | 851 | 851 | 644 | 457 | 457 | 457 |
| Gwella Cyfleusterau | 490 | 1,323 | 651 | 451 | 251 | 251 | 251 |
| Atebolrwydd Cyfreithiol | 200 | 225 | 186 | 186 | 186 | 186 | 186 |
| Hyfforddiant | 100 | 250 | 250 | 250 | 200 | 200 | 200 |
| Digwyddiadau mawr | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 | 150 |
| Gwella Systemau | 501 | 847 | 710 | 710 | 668 | 258 | 258 |
| Chwyddiant | 0 | 250 | 250 | 250 | 250 | 250 | 250 |
| **Cronfeydd Cyfalaf a Grantiau Wrth Gefn**<br>Gostyngiad Grant HFSC | 195 | 195 | 195 | 195 | 0 | 0 | 0 |
| Cynllun Radio (ESN) | 500 | 750 | 750 | 750 | 750 | 750 | 750 |
| Prosiectau adeiladu cyfalaf | 0 | 0 | 1043 | 514 | 514 | 514 | 514 |
| **Cyfanswm** | **3,461** | **5,566** | **6,221** | **5,285** | **4,361** | **3,951** | **3,951** |

12.10 Mae'r Awdurdod yn cadw cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi at y dibenion canlynol:

- Yswiriant – i dalu am golledion posibl nad ydynt wedi'u hyswirio;
- Cyllid Cyfalaf Gwelliant Amgylcheddol i gefnogi iechyd a diogelwch a chyflawni carbon sero
- Parhad Busnes – i gwrdd ag unrhyw wariant sydd ei angen mewn perthynas â chynnal cydnerthedd y Gwasanaeth;
- Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP) – i dalu am gostau cyflwyno'r system newydd yn genedlaethol;
- Gwelliannau i'r Gwasanaeth – cefnogi mentrau ar draws y Gwasanaeth gan gynnwys trawsnewid;
- Cyflogau a Phrisiau – cyllid ar gyfer cynnydd mewn cyflogau a phrisiau sy'n fwy na'r rhagdybiaethau cyllidebol.
- Pensiynau – rheoli costau pensiynau a chefnogi'r gwaith o gynllunio gweithlu

### 12.11 Digonolrwydd y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau bod y cronfeydd wrth gefn presennol sydd gan yr Awdurdod yn ddigonol. Bydd y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn yn cael ei hadolygu'n barhaus. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod.

## 13. Asesiad Risg

13.1 Mae'r MTRS yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar adeg ei drafftio, ond mae sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn newid yn gyson. Cynhelir asesiad risg ariannol cynhwysfawr ar y broses o bennu'r gyllideb refeniw a chyfalaf i sicrhau bod yr holl risgiau ac ansicrwydd sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn cael eu nodi. Mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o ffactorau sy'n rhoi pwysau ariannol sylweddol a allai effeithio ar y sefyllfa yn y tymor canolig. Mae asesiad o debygolrwydd ac effaith pob risg a'r rheolaethau rheoli sydd ar waith wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a gaiff eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau cyflogeion | • Mae'r cyllidebau staffio wedi'u creu ar sail y staffio sy'n ofynnol i gyflwyno'r model cyflwyno gwasanaethau presennol. Bydd y gwaith yn y dyfodol fel rhan o'r adolygiad ECR yn gweithio o fewn y paramedrau ariannol hyn.<br>• Pan gafodd y gyllideb ei phennu ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, nid oedd y dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer diffoddwyr tân ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/34 wedi'u cwblhau. Roedd y gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 yn tybio 5% a 4% yn y drefn honno, ond cafodd y dyfarniad cyflog gwirioneddol ei setlo ar 7% a 5%. Mae'r costau uwch sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac mae asesiad cynllunio o 4% wedi'i wneud ar gyfer dyfarniadau cyflog cenedlaethol yn 2024/25 i'r holl staff. | • Nid yw'r dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer 2024/25 wedi'u cytuno, ond ar gyfer pob pwynt canran uwchben yr asesiad cynllunio o 4% mae'r risg ariannol oddeutu £0.34m<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn tybio y bydd lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llif o alwadau yn digwydd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth weithredol yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.<br>• Cafodd cynllun pensiwn y diffoddwyr tân ei brisio yn ystod 2020 ac mae'r canlyniadau dros dro yn nodi cynnydd sylweddol, gyda phwysau cost posibl o £0.70m. Mae'r asesiad cynllunio presennol yn rhagweld y bydd cymorth ariannol yn cael ei dderbyn er mwyn lliniaru'r cynnydd hwn yn rhannol, er nad yw hyn wedi'i gadarnhau eto. Mae risg ariannol weddilliol o £0.30m yn bodoli. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a gaiff eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Nad yw'n gyflog | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau nad ydynt yn gyflogau'n cael eu llunio gan ddefnyddio'r modelau cyflwyno gwasanaethau presennol, wedi'u diweddaru yn ôl canlyniad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae'r gofynion ar y gyllideb nad yw'n gyflog wedi mynd yn waeth oherwydd yr effaith chwyddiant sy'n gynhenid o fewn contractau presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd hanfodol i fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi cit ymladd tân a dod o hyd i rannau newydd ar gyfer cerbydau'r ochr weithredol.<br>• Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflog. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â rheoli halogyddion ar gyfer ein diffoddwyr tân gweithredol yn dilyn gwaith cenedlaethol.<br>• Lluniwyd cyllidebau gan ddefnyddio gwybodaeth a barn broffesiynol rheolwyr cyllidebol a rhwymedigaethau cytundebol sylfaenol ond, o reidrwydd, maent yn cynnwys llawer iawn o amcangyfrif. Lle gellir mesur y pwysau ar gostau, mae wedi cael ei nodi ar wahân (e.e. egni)<br>• Yn ystod 2023/24, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu ei chefnogaeth ariannol o £0.416m ar gyfer y rhwydwaith cyfathrebu gwasanaethau brys cenedlaethol presennol (Firelink). Mae pris llawn y contract o £1.225m bellach yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyllid craidd. Oherwydd natur sefydlog y contract hwn, ni ellir osgoi'r costau hyn ac mae'r contract yn cynnwys cynnydd blynyddol yn sgil chwyddiant. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflog ac yn ymdrechu i reoli pwysau o ran costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg oherwydd y pwysau parhaus o fewn y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i brisiau'n codi a phroblemau argaeledd. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus ond oherwydd ansefydlogrwydd sylweddol, nid yw'n bosibl mesur yr effaith yn llawn.<br>• Rydym wedi gwybod bod cost nwy a thrydan yn achosi pwysau ers 2022/23 o ganlyniad i'r pwysau cost byd-eang. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r farchnad yn parhau i fod yn anwadal ac mae hyn yn parhau i beri ansicrwydd a risg hysbys.<br>• Nid oes darpariaeth benodol wedi'i gwneud o fewn y gyllideb ar gyfer lleihau carbon ond mae wedi'i chynnwys o fewn costau nad ydynt yn gyflog. Er enghraifft, mae'r symudiad oddi wrth gerbydau disel wedi'i gynnwys yng nghostau'r fflyd ar gyfer y dyfodol. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a gaiff eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2024/25 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer y ddarpariaeth refeniw isaf ar gyfer asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthyca. Mae'r costau hyn wedi'u dylanwadu gan wariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24 ac effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ail-ariannu benthyciadau sy'n aeddfedu.<br>• Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn tybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar y gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar adeg gosod y gyllideb.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf bellach yn cynnwys costau adeiladu posibl sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd. Ar hyn o bryd, nid yw'r achos busnes wedi cael ei ystyried gan yr Awdurdod. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn faes risg allweddol o ystyried yr ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd. Bydd gwaith modelu ariannol ychwanegol yn cael ei wneud er mwyn asesu sensitifrwydd sefyllfa ariannol a pherfformiad yr Awdurdod i'r cyfraddau llog presennol a bydd y gwaith yn cael ei nodi wrth bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir y bydd unrhyw waith adeiladu'n dechrau yn ystod 2024/25, efallai y bydd angen gwneud darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl pe bai cymeradwyaeth yn cael ei rhoi. |
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi cael eu hadolygu a'u gosod yn unol â blynyddoedd blaenorol.<br>• Gostyngodd incwm grant Llywodraeth Cymru yn sylweddol yn ystod 2023/24 yn sgil dileu Grant Firelink (£0.42m) ac ymgorffori Grant Scape (£1.08m) yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG) a dalwyd i awdurdodau lleol.<br>• Yn 2024/25 mae'r grant Lleihau Tanau Bwriadol wedi'i ddileu (£0.169m) ac mae dyraniad y grant Ymgysylltu ag Ieuenctid a Phobl Ifanc wedi cael ei ostwng i £0.123m.<br>• Mae'r gyllideb ddrafft yn tybio y bydd y cyllid grant Cydnerthedd Cenedlaethol yn cael ei dderbyn ar lefelau 2023/24. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dyraniadau o fewn y gyllideb yn seiliedig ar y dyraniadau sydd wedi'u gostwng. |

13.2 **Cadernid yr Amcangyfrifon**

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau bod yr amcangyfrifon cyllidebol wedi'u llunio ar sail gadarn a darbodus.

## 14. Cydnerthedd Ariannol

**Dadansoddiadau sensitifrwydd**

14.1 Mae'r MTRS newydd yn cael ei chynnal mewn amgylchedd mwy ansicr wrth i bwysau chwyddiant sylweddol effeithio ar yr economi.

14.2 Mae'r MTRS gyfredol yn rhagdybio dyfarniadau cyflog ar 4% ar gyfer 2024/25, 2025/26, 2026/27.

(i) Mae cyflogau'n cyfrif am dros 70% o gyfanswm y gwariant ac mae hyn yn parhau i fod yn un o'n rhagdybiaethau mwyaf. Mae'r tabl isod yn dangos effaith dyfarniadau cyflog gwahanol o ran sensitifrwydd. Bydd pob 1% ychwanegol yn costio £0.34m ychwanegol y flwyddyn.

(ii) Y prif ffactorau sy'n gyrru'r gwariant nad yw'n gyflogau yw chwyddiant, sydd ar hyn o bryd yn 4.6%. Fodd bynnag, mae rhai meysydd gwariant yn gweld cynnydd uwch na hyn. Mae rhai polisïau yswiriant yn debygol o gynyddu 10%, ac mae cynnydd uwch na chwyddiant hefyd yn cael eu profi mewn perthynas â chostau TG a chynnal a chadw adeiladau. Yn ogystal, roedd llawer o'r codiadau contract yn cyfateb i'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) sydd wedi gweld cynnydd cyfartalog o 10%. Mae'r rhagolygon hefyd yn awgrymu y bydd prisiau olew byd-eang yn cynyddu yn 2024, a fydd yn cael effaith ar gostau tanwydd.

**Cydnerthedd Tymor Canolig**

14.4 Mae dangosyddion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi'u datblygu i ddangos cydnerthedd ariannol tymor canolig Awdurdodau Tân. Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu meincnodi gydag Awdurdodau a sefydliadau eraill ac yn darparu asesiad cyffredinol o gydnerthedd ariannol. Er bod y dangosyddion wedi'u dyfeisio ar gyfer awdurdodau Lloegr, mae'r dangosyddion sy'n berthnasol i awdurdodau Cymru isod.

14.5 **Gor/tanwariant o gymharu â gwariant net** – Mae'n bwysig bod Awdurdodau'n cadw gor/tanwariant dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at yr hyn roeddent wedi bwriadu ei wario. *amcangyfrif o'r sefyllfa

| | 2020/21 £m | 2021/22 £m | 2022/23 £m | 2023/24* £m |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Gwariant Refeniw Net | 35.942 | 37.074 | 39.414 | 44.394 |
| Gorwariant/(Tanwariant) | - 0.063 | - 0.070 | 0.040 | - |
| | | | | |
| **Gorwariant/(Tanwariant) fel % o'r Gwariant Refeniw Net** | **-0.18%** | **-0.19%** | **0.10%** | **0.00%** |

14.6 **Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net** – Mae cronfeydd wrth gefn yn caniatáu ar gyfer rheoli cyfnodau o ansicrwydd ac mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd achub bwysig i gefnogi sefydlogrwydd ariannol.

| | Balans £m 31 Maw 21 | Balans £m 31 Maw 22 | Balans £m 31 Maw 23 | Balans £m 31 Maw 24 | Balans £m 31 Maw 25 | Balans £m 31-Mar-26 | Balans £m 31-Mar-27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| Gofyniad Refeniw Net (NRE) | 35.942 | 37.074 | 39.414 | 44.394 | 48.322 | 53.079 | 55.455 |
| | | | | | | | |
| Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | 1.450 | 1.520 | 1.480 | 1.480 | 1.480 | 1.480 | 1.480 |
| Cronfa wrth Gefn a Glustnodwyd | 3.461 | 5.566 | 6.221 | 5.285 | 4.361 | 3.951 | 3.951 |
| | | | | | | | |
| **Cronfeydd wrth gefn fel % o'r Gwariant Refeniw Net** | **13.66%** | **19.11%** | **19.54%** | **15.24%** | **12.09%** | **10.23%** | **9.79%** |
| | | | | | | | |
| Newid mewn % | | 5.45% | 0.43% | -4.30% | -3.15% | -1.86% | -0.44% |

14.7 **Cost Benthyca fel canran o'r Gwariant Refeniw Net** – Mae ymrwymiadau benthyca'n rhai tymor hir a rhaid eu hariannu o gyllidebau refeniw parhaus. Mae'r tabl hwn yn dangos faint o gyllid refeniw sydd wedi'i ymrwymo i ddiwallu'r ymrwymiadau benthyca presennol ac yn y dyfodol.

| | 2020/21 £m | 2021/22 £m | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| Gwariant Refeniw Net (NRE) | 35.942 | 37.074 | 39.414 | 44.394 | 48.740 | 53.179 | 54.632 |
| | | | | | | | |
| Benthyca | 26.209 | 24.435 | 26.460 | 20.787 | 24.493 | 28.508 | 30.234 |
| MRP | 2.104 | 2.001 | 1.959 | 1.902 | 1.885 | 2.267 | 2.601 |
| llog | 0.380 | 0.305 | 0.465 | 0.698 | 0.852 | 1.187 | 1.480 |
| | | | | | | | |
| **Cost benthyca fel % o'r Gwariant Refeniw Net** | **6.91%** | **6.22%** | **6.15%** | **5.86%** | **5.61%** | **6.50%** | **7.47%** |
| | | | | | | | |
| Lefel y ddyled | 26.209 | 24.435 | 26.460 | 20.787 | 24.493 | 28.508 | 30.234 |
| | | | | | | | |
| **Lefel y ddyled fel % o'r Gwariant Refeniw Net** | **72.92%** | **65.91%** | **67.13%** | **46.82%** | **50.25%** | **53.61%** | **55.34%** |

## 15. Ardoll yr Awdurdodau Cyfansoddol

15.1 Mae Is-grŵp Dosbarthu Llywodraeth Cymru, sy'n cynghori ar faint o gyllid refeniw mae pob awdurdod lleol yn ei dderbyn, wedi penderfynu defnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol 2022 y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Setliad Llywodraeth Leol 2024/25. Yn seiliedig ar y data poblogaeth yma, dangosir y cyfraniad wedi'i ddiweddaru fesul Awdurdod Cyfansoddol yn y tabl isod.

| Awdurdod | 2023/2024 Cyfraniad £ | Poblogaeth | Dosraniad % | 2024/25 Gofynion y Gyllideb (Ardoll) £ | Cynnydd i'r Ardoll £ | Cynnydd i'r Ardoll % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 4,402,671 | 69,049 | 10.03% | 4,848,293 | 445,622 | 10.12% |
| Cyngor Gwynedd | 7,913,676 | 117,591 | 17.09% | 8,256,681 | 343,005 | 4.33% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 7,477,835 | 114,290 | 16.61% | 8,024,901 | 547,066 | 7.32% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6,064,090 | 96,558 | 14.03% | 6,779,844 | 715,754 | 11.80% |
| Cyngor Sir y Fflint | 9,936,363 | 155,319 | 22.57% | 10,905,762 | 969,399 | 9.76% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 8,599,526 | 135,394 | 19.67% | 9,506,724 | 907,198 | 10.55% |
| **Cyfanswm** | **44,394,161** | **688,201** | **100%** | **48,322,205** | **3,928,044** | |

## 16. Casgliad

16.1 Mae sefyllfa ariannol gyffredinol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gynaliadwy dros y tymor canolig. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar ddefnyddio £2.271m o gronfeydd wrth gefn rhwng 2023/24 a 2026/27. Bydd sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod yn cael ei hadolygu'n barhaus.

16.2 Mae'r MTRS yn nodi sut bydd tair blynedd yr MTRS yn cael eu hariannu ac amcangyfrifir cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar £6.765m ar gyfer 2023/24.

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **22 Ionawr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard – Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Adroddiad Diweddaru Rheoli Trysorlys Ch2 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am weithgarwch rheoli trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2023 hyd at 30 Medi 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod god ymarfer *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice (2021)* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod, fan lleiaf, gymeradwyo adroddiadau alldro chwemisol a blynyddol ynghylch rheoli trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i wneud adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 mewn cyfarfod ar 20 Mawrth 2023. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid cyfraddau llog ar refeniw. Mae adnabod, monitro a rheoli risgiau yn llwyddiannus yn parhau i fod yn rhan ganolog o strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

**SYLWADAU GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

5 Bu'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried gweithgarwch Rheoli Trysorlys 2023-24 yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Cafodd gweithgarwch newydd ei nodi gan y Pwyllgor, ac roeddent yn argymell cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Chwarter 2 2023-24.

**ARGYMHELLION**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023.

## CYD-DESTUN ALLANOL

7 Parhaodd chwyddiant i ostwng o'r pwynt uchaf yr oedd wedi'i gyrraedd, gyda phrif gyfradd flynyddol y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn dangos cwymp i 6.7% ym mis Gorffennaf 2023 o 6.8% yn y mis blaenorol, a hynny yn groes i'r disgwyliad o gynnydd i 7.0%. Prisiau bwyd wnaeth gyfrannu fwyaf i'r cwymp. Roedd y gyfradd graidd hefyd wedi gostwng yn annisgwyl, gyda chwymp i 6.2% o 6.9%, a hynny'n groes i'r rhagolygon iddi gwympo i 6.8% yn unig.

8 Parhaodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (y Pwyllgor) i dynhau'r polisi ariannol dros y rhan fwyaf o'r cyfnod, gan godi Cyfradd y Banc i 5.25% ym mis Awst. Er y disgwyliad i'r gyfradd godi eto ym mis Medi, pleidleisiodd y Pwyllgor o 5-4 i gadw Cyfradd y Banc ar 5.25%. Roedd y pedwar a bleidleisiodd yn groes o blaid cynnydd arall 0.25%.

9 Roedd y disgwyliadau o ran cyfraddau llog yn cynnwys codiadau pellach mewn cyfraddau polisi. Newidiodd Arlingclose, cynghorydd trysorlys yr Awdurdod, ei ragolygon i gynnydd pellach o 0.5% o ran tynhau ariannol, gan fynd â Chyfradd y Banc i 5.5%. Y risgiau, fodd bynnag, yw y gallai'r cyfraddau fod yn uwch; mae marchnadoedd ariannol yn rhagweld cyfraddau llog polisi sydd dros 6%.

10 Disgwylir i fwy o anwadalrwydd nag arfer yn y farchnad barhau i fod yn ffactor, o leiaf yn y dyfodol agos, ac, fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr partïon i gontract yr Awdurdod a argymhellwyd gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

## CYD-DESTUN LLEOL

11 Ar 31 Mawrth 2023, roedd benthyciad net yr Awdurdod yn £22.48m, a hynny'n deillio o wariant cyfalaf.

12 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | 31.03.23 Gwirioneddol £m | 30.09.23 Gwirioneddol £m |
|---|---|---|
| CFR y Gronfa Gyffredinol | 28.88 | 32.42 |
| Benthyca allanol | -26.65 | -22.20 |
| Benthyca mewnol | 0.00 | -9.22 |
| Heb: Adnoddau mantolen | -6.40 | -9.94 |
| Heb: Buddsoddiadau | 4.17 | 8.94 |
| **Benthyca newydd** | **0.00** | **0.00** |

13 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR).

14 Mae’r sefyllfa rheoli trysorlys ar 30 Medi a’r newid dros y chwe mis yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiad £m | 30.9.23 Balans £m | 30.9.23 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca hirdymor (PWLB) | 17.79 | -0.66 | 17.13 | 1.00 - 4.90 |
| Benthyca byrdymor | 8.86 | -3.79 | 5.07 | 1.30 - 3.91 |
| **Cyfanswm y benthyciadau** | **26.65** | **-4.45** | **22.20** | |
| Buddsoddiadau byrdymor | 0.00 | -2.00 | -2.00 | 5.20 |
| Arian parod a’r hyn sydd gyfwerth ag arian parod | -4.17 | -2.77 | -6.94 | 4.65 – 5.14 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-4.17** | **-4.77** | **-8.94** | |
| **Benthyca net** | **22.48** | **-9.22** | **13.26** | |

## BENTHYCA

15 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda’r nod pennaf o elwa’n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

16 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

## STRATEGAETH FENTHYCA A GWEITHGARWCH

17 Yn unol â’r strategaeth trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyg fu mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid. Ail nod yw sicrhau’r hyblygrwydd i ailnegodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

18 Bu cynnydd sylweddol yng nghost benthyca byrdymor a hirdymor dros y 18 mis diwethaf. Cododd cyfradd y banc 1%, o 4.25% ar ddechrau mis Ebrill i 5.25% ddiwedd Medi. Roedd cyfradd y banc 2% yn uwch nag yr oedd ddiwedd Medi 2022.

19 Parhaodd cyfraddau benthyca'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) i godi trwy gydol y chwarter. Ar 30 Medi, roedd cyfraddau sicrwydd PWLB ar gyfer benthyciadau aeddfedu yn 5.26% ar gyfer benthyciadau 10 mlynedd, 5.64% ar gyfer benthyciadau 20 mlynedd, a 5.43% ar gyfer benthyciadau 50 mlynedd. Ar 31 Mawrth 2023, y ffigyrau cyfatebol oedd 4.33%, 4.70% a 4.41% yn y drefn honno.

20 Ar 30 Medi, roedd gan yr Awdurdod £22.20m o fenthyciadau, gostyngiad o £4.45m o'i gymharu â 31 Mawrth 2023, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol a phresennol. Mae'r benthyciadau sy'n weddill ar 30 Medi yn cael eu crynhoi yn Tabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa Fenthyca**

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiad Net £m | 30.9.23 Balans £m | 30.9.23 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli % | 30.9.23 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 20.65 | -1.45 | 19.20 | 2.46 | 4.54 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 6.00 | -3.00 | 3.00 | 3.91 | 1.00 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **26.65** | **-4.45** | **22.20** | | |

21 Mae cost benthyca tymor byr yr Awdurdod wedi parhau i gynyddu yn unol â'r cynnydd yng Nghyfradd y Banc a chyfraddau marchnad dyddiad byr. Y gyfradd gyfartalog ar fenthyciadau byrdymor yr Awdurdod ar 30 Medi 2023 ar £3.00m oedd 4.35%, o'i gymharu ag 1.3% ar fenthyciadau £6.00m 12 mis yn ôl.

**Tabl 3B: Benthyciadau Dyddiad Hir a fenthycwyd**

| | Swm<br><br>£m | Cyfradd<br><br>% | Cyfnod sy'n Weddill<br><br>(Blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedu PWLB | 2.00 | 4.80 | 29 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.68 | 3.09 | 14 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.86 | 3.91 | 17 |
| **Benthyciadau dros 5 mlynedd** | **7.54** | | |

22 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, a chynhaliwyd portffolio cytbwys o fenthyciadau byrdymor a hirdymor.

23 Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2023, ad-dalwyd benthyciad marchnad byrdymor o £3m. Cymerwyd ei le gan fenthyciad PWLB tymor hir, a fenthycwyd yn 2022/23. Gwnaethpwyd hyn yn dilyn cyngor gan ein cynghorwyr rheoli trysorlys ac fe'i gwnaethpwyd pan oedd cyfraddau llog yn ffafriol.

**GWEITHGARWCH BUDDSODDI TRYSORLYS**

24 Cyhoeddodd CIPFA ddiwygiadau god ymarfer diwygiedig ar Reoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllawiau Traws-Sectoraidd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian y sefydliad neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd, yn y pen draw, yn cynrychioli balansau sydd i'w buddsoddi nes bydd angen yr arian ar gyfer busnes.

25 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, amrywiodd balansau buddsoddi'r Awdurdod rhwng £4.17m a £10.18m, oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Mae'r rhan fwyaf o'r balans yn ymwneud â'r incwm a dderbyniwyd mewn perthynas â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, a fydd yn cael ei wario drwy gydol y flwyddyn. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiad Net £m | 30.9.23 Balans £m | 30.9.23 Adenillion ar Incwm % | 30.9.23 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli dyddiau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithasau Adeiladu a Banciau | 4.17 | 2.77 | 6.94 | 4.65 - 5.14 | ar alwad |
| DMADF | 0.00 | 2.00 | 2.00 | 5.20 | 54 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **4.17** | **4.77** | **8.94** | | |

26 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd adenillion orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

27 Fel y mae meincnod atebolrwydd yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

28 Gwelwyd cynnydd o 1% yng Nghyfradd y Banc, o 4.25% ar ddechrau mis Ebrill i 5.25% ddiwedd Medi. Bu cynnydd cymesur yng nghyfraddau arian parod dyddiad byr, gyda chyfraddau 3 mis yn codi i tua 5.25% a chyfraddau 12 mis yn codi i bron i 6%. Cododd y cyfraddau ar fuddsoddiadau DMADF hefyd, yn amrywio rhwng 5.17% a 5.29% erbyn diwedd mis Medi, a Chyfraddau Marchnad Arian Parod rhwng 4.65% a 5.14%.

**CYDYMFFURFIAETH**

29 Mae'r Trysorydd yn adrodd bod yr holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y chwarter wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod Rheoli Trysorlys a Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod.

30 Yn ystod Chwarter 2, mae'r Gwasanaeth wedi agor Cyfrif Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO), gan nad yw’r Strategaeth Rheoli Trysorlys yn rhoi cyfyngiad ar faint o arian y gellir ei roi i’r DMO.

31 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 30.09.23 Gwirioneddol | Wedi Cydymffurfio? Do / Naddo |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m fesul banc | £6.94m | Do |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | Diderfyn | £2.0m | Do |
| Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF) | Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose. | £1m fesul cronfa | 0 | Do |
| Awdurdodau Lleol | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | £2m | 0 | Do |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | 0 | Do |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1biliwn neu fwy | £2m/9 mis | 0 | Do |

32 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | 30.9.23 Gwirioneddol £m | 2023/24 Ffin Weithredol £m | 2023/24 Terfyn Awdurdodedig £m | Wedi Cydymffurfio ? |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 22.20 | 28.99 | 30.99 | Do |
| **Cyfanswm y ddyled** | **22.20** | **28.99** | **30.99** | |

33 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd benthyca gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai croesi'r ffin yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS

34 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

### Meincnod Atebolrwydd

35 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos lefel risg isaf benthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i benderfyniadau yn sgil hynny.


36 Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

| | 31.3.23 Gwirioneddol £m | 31.3.24 Rhagolwg £m | 31.3.25 Rhagolwg £m | 31.3.26 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|
| CFR Benthyciadau | 28.88 | 32.42 | 34.50 | 37.70 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.40 | -5.00 | -4.50 | -4.00 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 22.48 | 27.42 | 30.00 | 33.70 |
| Gyda: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| **Meincnod atebolrwydd** | **24.48** | **29.42** | **32.00** | **35.70** |
| **Benthyciadau presennol** | **-26.65** | **-17.80** | **-14.10** | **-10.50** |

37 Nid yw'r rhagolygon uchod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, gan nad yw'r Awdurdod wedi cytuno ar hynny eto.

38 Mae'r meincnod atebolrwydd yn fesur hirdymor o'r angen sylfaenol i fenthyca ar gyfer pob diben yn yr hirdymor, ac mae'n seiliedig ar y rhaglen gyfalaf gyfredol ac ar symudiadau llif arian eraill a ragolygir. Mae'n offeryn i gymharu'r portffolio benthyciadau cyfredol yn erbyn yr angen cyfredol a chynlluniedig i fenthyca, o ran lefel a thymor y benthyca. Mae'n nodi a yw benthyca hirdymor yn fwy priodol.

39 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio yr ariennir gwariant cyfalaf drwy fenthyca £4m - £6m rhwng 2023/24 a 2025/26, yr isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar fywydau'r asedau presennol, yn unol â'r polisi cyfrifyddu, incwm a gwariant yn cynyddu ar sail chwyddiant o [2.5]% y flwyddyn a gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn. Mae hyn yn cael ei ddangos yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyca presennol yr Awdurdod.




40 Mae'r graff yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl y bydd angen iddo fenthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod wastad ofyniad benthyca gan nad oes ganddo arian parod na chronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

41 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a'r gwarged cyfalaf gweithredol (neu ddiffygion) wedi'u hystyried – mewn gwirionedd, dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae'r llinell goch bytiog yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell gyflawn yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r ardaloedd llwyd yn dangos y benthyciadau gwirioneddol. Pan fo'r ardal lwyd o dan y llinellau coch, mae'n dangos bod angen benthyca.

**Strwythur Aeddfedu Benthyciadau**

42 Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailgyllido. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedu pob benthyciad oedd:

| | **30.9.23 Gwirioneddol** | **Terfyn Gwirioneddol** | **Terfyn Uchaf** | **Terfyn Isaf** | **Wedi Cydymffurfio Do/Naddo** |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 3.78 | 17.03% | 60.00% | 0.00% | Do |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 2.48 | 11.17% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 8.40 | 37.84% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 0.68 | 3.06% | 75.00% | 0.00% | Do |
| 10 mlynedd a mwy | 6.86 | 30.90% | 100.00% | 0.00% | Do |

43 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedrwydd benthyciadau yw'r dyddiad cynharaf pan fyddai'r benthyciwr yn gallu hawlio ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor**

44 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir GTAGC. Mae'n sicrhau bod pryniant asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol â'r adroddiad Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y Gwasanaeth fethu, gan arwain at golli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **22 Ionawr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Gareth Owens, Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Gareth Owens (01745 535286)** |
| Pwnc | **Protocol Rhoddion a Lletygarwch** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar ddiwygiadau i'r protocol rhoddion a lletygarwch.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r protocol lletygarwch, sy'n berthnasol i'r holl staff, wedi cael ei ddiweddaru er mwyn ei roi yn y fformat newydd a ddefnyddir gan bolisïau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) h.y. un ddogfen yr un ar gyfer polisi a gweithdrefn. Nid yw'r cynnwys wedi'i newid ar y cyfan, er bod rhwymedigaethau wedi'u hychwanegu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i:

a. weithwyr hysbysu eu rheolwr llinell o fewn 20 diwrnod o gael cynnig / derbyn rhodd neu letygarwch sydd werth mwy na £25;
b. cofrestru rhoddion a dderbynnir o'r un ffynhonnell o fewn cyfnod treigl o 12 mis sydd â chyfanswm gwerth o fwy na £100; a
c. bod y gofrestr yn cael ei gwirio o leiaf unwaith y flwyddyn.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i) cymeradwyo'r polisi a'r weithdrefn rhoddion a lletygarwch.

**ARSYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau (y Pwyllgor) a gwnaethpwyd y sylwadau/awgrymiadau canlynol:

a. Ychwanegu'r cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i gofrestru rhoddion sydd â chyfanswm gwerth o fwy na £100;
b. Bod y gofrestr yn cael ei gwirio o leiaf unwaith y flwyddyn; ac
c. Y dylai swyddogion ystyried a yw'r gofynion yr un fath ar gyfer diffoddwyr tân ac, os nad ydynt, a fyddai hynny'n ddymunol.

## CEFNDIR

5 Mae gan yr Awdurdod brotocol i weithwyr o ran rhoddion a lletygarwch. Rai blynyddoedd yn ôl, cafodd y trothwy ar gyfer datgan unrhyw roddion / lletygarwch i gynghorwyr ei godi i £25. Yn ddiweddar, cytunwyd y dylai'r lefel honno fod yn drothwy cyffredin ar draws awdurdodau eraill. Mae cod y gweithwyr yn gosod yr un trothwy.

## GWYBODAETH

6 Yn ddiweddar, cafodd y protocol ei rannu'n ddogfennau polisi a gweithdrefn ar wahân er mwyn cyd-fynd â'r fformat newydd a ddefnyddir gan bolisïau'r awdurdod. Nid yw cynnwys y ddogfen wedi newid llawer ac, ar y cyfan, yr unig beth sydd wedi'i newid yw'r ffordd y mae wedi'i osod.

7 Nid oedd y protocol yn ei gwneud yn ofynnol cyn hyn i weithwyr hysbysu eu rheolwyr pan fo rhodd/lletygarwch yn cael ei gynnig/derbyn. Mae hyn bellach wedi'i nodi yn eglur o fewn y polisi a'r weithdrefn er mwyn sicrhau tryloywder.

8 Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion (sydd wedi'u rhestru uchod), a derbyniwyd pob un ohonynt. Mae'r cod drafft sydd ynghlwm yn cynnwys y cymal ar roddion o'r un ffynhonnell sydd werth mwy na £100, bydd y gofrestr yn cael ei hadrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddol unwaith y flwyddyn, a bydd y polisi yn berthnasol i'r holl staff gan gynnwys diffoddwyr tân.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |
| Cyllideb ar gyfer 2023/24 | Gellir cyfathrebu unrhyw negeseuon ynghylch y canfyddiadau o fewn y gyllideb. |
| Cyfreithiol | Mae'r Cyfansoddiad yn gwneud y Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu protocol y swyddogion ar dderbyn rhoddion a lletygarwch. |
| Staffio | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Nid ystyrir bod angen mynd i'r afael ag unrhyw faterion gan fod yr argymhellion yn berthnasol i'r holl Aelodau beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb sengl. |
| Risgiau | Ystyriwyd nad ydy hyn yn berthnasol. |